Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 13 Mawrth 2014**

Amser:
**09.30**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod**

### 1 Bil Cynllunio (Cymru) Drafft: Sesiwn friffio breifat (09:30-10:00)

**Cyfarfod cyhoeddus**

### 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 3 Bil Cynllunio (Cymru) Drafft: John Davies (10:00-11:00) (Tudalennau 1 - 16)

John Davies, Cadeirydd, y Grŵp Ymgynghori Annibynnol

### 4 Bil Cynllunio (Cymru) Drafft: ARUP a Fortismere Associates (11:00-11:45)

Christopher Tunnell, Cyfarwyddwr - Cynllunio, Polisi ac Economeg, Arup
Kieron Hyams, Swyddog Cyswllt - Cynllunio, Polisi ac Economeg, Arup
Alison Blom-Cooper, Cyfarwyddwr, Fortismere Associates

## 5 Bil Cynllunio (Cymru) Drafft: Land Use Consultants (11:45-12:15)

Lyndis Cole, Pennaeth Cynllunio a Rheoli Tirweddau, Land Use Consultants

**(Cinio 12.15 - 13.15)**

## 6 Bil Cynllunio (Cymru) Drafft: Parciau Cenedlaethol Cymru (13:15-13:45) (Tudalennau 17 - 63)

E&S(4)-08-14 papur 1

Aneurin Phillips, Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Jane Gibson, Cyfarwyddwr Cynllunio, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Martin Buckle - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## 7 Bil Cynllunio (Cymru) Drafft: Cymdeithas y Gyfraith a Chymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd (13:45-14:30)

Morag Ellis CF, Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd
Huw Williams, Partner - Cyfraith Gyhoeddus, Geldards
Kay Powell, Cynghorydd Polisi, Cymdeithas y Gyfraith

## 8 Papurau i'w nodi

**Rheoli Tir Cynaliadwy: Gwybodaeth ychwanegol gan RSPB Cymru** (Tudalennau 64 - 65)

E & S (4)-08-14 papur 2

**Bil yr Amgylchedd - Papur Gwyn : Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd** (Tudalennau 66 - 71)

E&S(4)-08-14 papur 3

## 9 Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gwilym Jones, Aelod o Gabinet, Comisiynydd Amaethyddiaeth yr UE (14:30-15:00) (Tudalennau 72 - 78)

Gwilym Jones, Aelod o Gabinet, Comisiynydd Amaethyddiaeth yr UE

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer eitem 1 ar 19 Mawrth

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

# Cynllunio Cadarnhaol – Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru

Hoffem glywed eich barn ar ein cynigion i newid y system gynllunio yng Nghymru. Bydd angen newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau.

***Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 26/02/2014.***

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at:: planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch y switsfwrdd ar 0300 0603300 neu 08450103300.

| **Diogelu Data** |
|---|
| Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael eu gweld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion sy'n cael eu trafod yn yr ymgynghoriad. Efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn eu gweld hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Bydd hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn yn cuddio'r manylion hyn.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau neu'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym yn credu y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn galluogi'r cyhoedd i wneud cais i weld gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i wybodaeth gael ei hatal mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn i weld gwybodaeth sydd wedi'i hatal gennym, byddwn yn penderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio cyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, byddwn yn ystyried y ffaith bwysig hon. Fodd bynnag, efallai bod rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er eu bod wedi gofyn i ni beidio eu cyhoeddi. Byddwn yn cysylltu â'r unigolyn hwnnw ac yn gofyn eu barn cyn y byddwn yn gwneud penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. |

| **Cynllunio Cadarnhaol – Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad cyfnod ymgynghori: 04/12/2013 – 26/02/2014** | | |
| **Enw** | **Greg Pycroft** | |
| **Sefydiad** | **Parciau Cenedleathol Cymru** | |
| **Cyfeiriad** | **126 Stryd Bute<br>Caerdydd<br>CF10 5LE** | |
| **Cyfeiriad e-bost** | **greg.pycroft@parciaucenedleatholcymru.gov.uk** | |
| **Math**<br>*(dewiswch un o'r canlynol)* | Busnesau /Ymgynghorwyr | ☐ |
| | Awdurdod Cynllunio Lleol | ☒ |
| | Asiantaeth y Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall | ☒ |
| | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb | ☐ |
| | Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cwmnïau cydweithredol, mentrau, crefyddol, sefydliadau dielw) | ☐ |
| | Arall (grwpiau eraill nad ydynt wedi'u rhestru uchod) neu unigolyn | ☐ |

**Cefnogi newid mewn diwylliant**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C1** | A ydych yn cytuno y bydd cylch gwaith arfaethedig y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn helpu awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid i wella perfformiad? | Ydw | Nac Ydw |
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Mewn egwyddor, mae rôl ganolog ar gyfer gosod safonau, gofynion hyfforddiant, safoni prosesau sy'n gyffredin i bawb, a chyd-drefnu arbenigeddau yn gam cadarnhaol. Fodd bynnag, rhaid hefyd cydnabod bod gan bob ACLl ei faterion a gofynion ei hun na ellir eu gwasanaethu orau gan grŵp ymgynghorol canolog. Ni ddylai gwybodaeth arbenigol leol gael ei gwanhau gan rôl y PAIS.**

**Mae gan y PAIS y potensial i fod yn arf defnyddiol iawn i ddarparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant a gwella perfformiad awdurdodau cynllunio ledled Cymru. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol wrth ddarparu cymorth mewn perthynas â materion cynllunio ymlaen. Er enghraifft, lledaenu arfer gorau, cydlynu cyllid ymchwil ar ran awdurdodau.**

**Rhaid cael ymrwymiad gan yr ACLlau a'i yrru'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru. Mae angen hefyd ymgysylltu'r ymrwymiad gan aelodau RTPI, aelodau etholedig a POSW, i enwi ond rhai. Ar ben hynny, bydd angen iddo weithio'n agos gyda'r RTPI i sicrhau hyfforddiant a chyngor ategol. Rhaid i'r PAIS gael ei ariannu yn ganolog a pheidio â dibynnu ar adnoddau gan ACLlau, sydd eisoes yn cael eu gorymestyn.**

**Fel arall, dylai'r PAIS weithredu'n annibynnol ar y llywodraeth ac felly bydd angen craffu ar ei lywodraethu ac atebolrwydd a dylai wynebu ymgynghoriad pellach. Os yw hwn yn wasanaeth sydd i fod ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol yn unig, dylid ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Os yw i gael ei dargedu ar y proffesiwn cynllunio yn ei gyfanrwydd, yna gellid ei gynnal gan RTPI Cymru. Sut allai fod yn sefydliad gwirioneddol annibynnol os yw'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru?**

**Dylai hwn gael ei dargedu ar y proffesiwn cynllunio yn ei gyfanrwydd. Dylai ymgynghorwyr cynllunio ac ymgyngoreion statudol fod yn gymaint rhan o'r newid diwylliant yn y proffesiwn â'r ACLlau. Fodd bynnag, mewn cyfnod o adnoddau prin, mae'r rhesymeg o'i dargedu ar yr ACLlau i ddechrau, ac o bosibl ymestyn ei gylch gwaith i sefydliadau eraill wrth i amser fynd heibio, yn ddealladwy.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C2** | A ydych yn cytuno y dylid adolygu trefniadau cymorth presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer sector yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru? | Ydw | Nac Ydw |
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Mae'n aneglur at beth y mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio. Ai'r Comisiwn Dylunio?**

**Beth a olygir gydag adolygiad?**

**Er bod Comisiwn Dylunio Cymru yn sefydliad defnyddiol sy'n gallu darparu gwasanaeth defnyddiol, dylid rhoi mwy o adnoddau tuag at ddatblygiad proffesiynol parhaus cynllunwyr ar faterion dylunio yn gyffredinol. Gellid cyflawni hyn trwy Gomisiwn Dylunio Cymru wedi ei ailgyfansoddi. Ar hyn o bryd, dim ond pan fo datblygiad strategol-bwysig yn cael ei gynnig neu at ddibenion hyfforddi ar sail ad hoc y mae ACLlau yn elwa o wasanaeth Comisiwn Dylunio Cymru. Fodd bynnag, dylid rhoi mwy o ffocws ar ddarparu sylfaen fwy cyson ar gyfer datblygu gwybodaeth a sgiliau yn y proffesiwn cynllunio. Yn gyffredinol, mae gwybodaeth a sgiliau dylunio yn anghyson rhwng swyddogion mewn ACLlau. Hefyd ystyrir y byddai asiantau yn elwa o wybodaeth well am y pwnc hwn.**

| C3 | A ydych yn cytuno y dylid paratoi fframweithiau cymwyseddau ar gyfer ymarferwyr cynllunio a chynrychiolwyr etholedig i ddisgrifio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen er mwyn diwygio'r system gynllunio? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, ond byddai rhaid iddo fod yn rhan o broses newid diwylliant, Llywodraeth Leol ac etholiadol. Fodd bynnag ystyrir bod rhyw ffurf o hyfforddiant gorfodol, asesu cymhwysedd a monitro sgiliau yn angenrheidiol.**

**Ni fydd y gwaith o baratoi'r fframweithiau gan y Llywodraeth i gorff arall eu dilyn o reidrwydd yn sicrhau'r newidiadau mewn diwylliant sydd eu hangen. Bydd gweithio sensitif gyda chyrff presennol yn debygol o gynhyrchu canlyniad tebyg am lai o gost, ac yn annog mwy o 'brynu i mewn'.**

**Nodir y bydd llwyddiant y diwygiadau cynllunio yn dibynnu ar sgiliau a phrofiad yr holl gyfranogwyr (gan gynnwys y cyhoedd) yn y system gynllunio.**

**Ceir asesiad o gymhwysedd/profiad proffesiynol wrth ddod yn aelod o RTPI, ac mae angen cymhwyster proffesiynol i gael aelodaeth. Mae gofyniad hefyd am hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol gan unigolion, a ariennir yn rhannol gan awdurdodau lleol. Ni ddylid dyblygu prosesau proffesiynol sydd eisoes yn bodoli, sy'n gwirio cymhwysedd proffesiynol.**

**Stiwardiaeth Weithredol**

| C4 | A ydych yn cytuno y bydd yr Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer pennu blaenoriaethau cenedlaethol ac yn hwyluso'r broses o'u cyflawni? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Eglurwch rôl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, os gwelwch yn dda. A fydd yn darparu mynegiant gofodol ar gyfer Datganiadau Cynllunio Cenedlaethol llywodraeth y DU? Os yw'n cymryd arno'i hun rôl Cynllun Gofodol Cymru, yna roedd y rôl honno'n fwy cyflawn o ran darparu mynegiant i rôl dynodiadau cenedlaethol fel Parciau Cenedlaethol.**

**Fodd bynnag, croesewir dull strategol o ymdrin â chynllunio, a bydd datblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn helpu i ymdrin â materion trawsffiniol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y ceisiadau datblygu mwyaf cynaliadwy yn cael eu rhoi ymlaen yn hytrach na chyfyngu datblygiadau i ardaloedd lleol, yn seiliedig ar ddyheadau a barn wleidyddol.**

**Bydd hefyd yn galluogi cyflenwi dull mwy strategol o gynllunio. Fodd bynnag, rhaid iddo fod yn arf cadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth a chyda ymgynghori ac arweiniad uniongyrchol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i fod yn weithredadwy ac i gyflenwi ei nodau.**

**Mae potensial ar gyfer gwrthdaro â CDLlau presennol. Bydd angen rheoli'r cyfnod o newid tra bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dechrau dod i'r amlwg a'r CDLlau presennol yn cael eu hadolygu, gydag arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru.**

**Dylid cael amserlen ddiffiniedig ar gyfer paratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Os yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ffurfio rhan o'r 'cynllun datblygu' mae risg y gallai hyn gael ei adolygu'n rheolaidd ac ar fyr rybudd - sydd o bosibl yn creu gwrthdaro â chynlluniau datblygu sydd wedi eu paratoi a'u mabwysiadu yn unol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol blaenorol. Hefyd, er mwyn cynyddu tryloywder a hygrededd, oni fyddai'n well i'r ddogfen hon fynd trwy broses 'archwilio' strategol?**

| C5 | A ydych yn cytuno y dylid integreiddio Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru i greu un dogfen? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:
**Ystyrir nad oes angen hyn o reidrwydd mewn un ddogfen. P'un a yw'n un neu**

**ddwy ddogfen, mae angen ei chadw/eu cadw mor syml a darllenadwy â phosibl, ac mae angen i'r ddwy elfen groesgyfeirio.**

**Mae cynllunio mwynau yn tueddu i fod yn seiliedig ar dechnoleg, ac mae'n bosibl na fydd y ddau yn priodi yn arbennig o effeithiol i fod yn ddogfen hawdd i'w deall a'i defnyddio.**

| C6 | A ydych yn cytuno y dylid paratoi cyfres graidd o bolisïau rheoli datblygu i'w cymhwyso'n gyson gan bob awdurdod cynllunio lleol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:
**Gall y materion cynllunio sy'n effeithio ar awdurdodau cynllunio lleol unigol fod yn benodol ac yn wahanol iawn. Ni ddylai Cymru ganiatáu i'w amrywiaeth a natur unigryw gael ei cholli yn y nod o ddarparu cysondeb. Ceir hefyd y cwestiwn o gymhwyso a gweithredu polisi - efallai y bydd polisi a welir fel un wedi ei 'drosglwyddo oddi uchod' yn cael ei weithredu'n anfodlon. Mae Parciau Cenedlaethol yn enghraifft wych lle na fyddai polisi cyffredinol yn addas.**

**Mae hefyd yn hanfodol nad yw'r polisïau safonol yn tanseilio materion lleol ac arwyddocâd hunaniaeth a chymeriad lleol i gadw amrywiaeth a diddordeb yn yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru.**

| C7 | A ydych yn cytuno y bydd yr hierarchaeth datblygu arfaethedig yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur, gan ddibynnu ar eu manteision a'u heffeithiau tebygol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Mae pryder bod hwn yn cyflwyno haen arall o wneud penderfyniadau, sy'n dal i fod angen mewnbwn sylweddol gan yr ACLl heb unrhyw elw ariannol. Ystyrir bod y broses ar gyfer penderfynu ar geisiadau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol angen rhagor o fireinio meddwl, ac y dylai cyfran o'r ffi gael ei briodoli i'r ACLl gan fod ganddo ran bwysig i'w chwarae yn y broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys proses orfodol cyn-ymgeisio.**

**Yn ogystal, mae pob ACLl mewn gwell sefyllfa i ddeall materion a sensitifrwydd lleol ac mae pryder y bydd symud y broses o wneud penderfyniadau i Weinidogion Cymru yn tanseilio atebolrwydd a thryloywder lleol. Byddai'r angen am haen bellach hefyd yn cael ei leihau petai PAIS yn medru darparu rhywfaint o'r mewnbwn arbenigol.**

**Hefyd ystyrir y dylai ceisiadau mawr fod yn destun i drafodaethau cyn-ymgeisio gorfodol yn hytrach na bod hyn yn opsiwn.**

**Mewn ceisiadau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol a cheisiadau mawr, dylai cyn-geisiadau fod yn destun i ofyniad gorfodol i'r awdurdod lleol a'r datblygwr er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio mewn modd priodol.**

**Sut mae'r 'Prawf Datblygu Mawr' (para. 5.5.6 o Bolisi Cynllunio Cymru) yn gysylltiedig â hyn?**

| C8 | A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd a nodir yn Atodiad B? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Ystyrir y dylid rhoi ffrâm amser clir ar gyfer penderfynu ar brosiectau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ac y dylai Gweinidogion Cymru fod yn destun craffu ar gydymffurfio â'r fframiau amser penodol yn yr un modd ag y mae ACLlau.**

**Fodd bynnag, fel uchod, sut mae'r 'Prawf Datblygu Mawr' (para. 5.5.6 o Bolisi Cynllunio Cymru) yn gysylltiedig â hyn?**

**Mae gorsafoedd cynhyrchu o 25MW a throsodd yn ymddangos yn drothwy isel ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (gallai fod mor fach â 9 o ffermydd gwynt tyrbin). Ni allwn weld sut y gall cynlluniau o'r fath yn rhesymol gael eu cyfiawnhau fel rhai o 'arwyddocâd cenedlaethol'.**

| C9 | A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Sylweddol a nodir yn Atodiad B? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:
**Efallai na fyddai un maint yn ffitio pawb yn rhoi ateb ymarferol yn enwedig mewn Parciau Cenedlaethol gan eu bod yn dirweddau gwarchodedig mewn ardaloedd gwledig yn hytrach nag ardaloedd trefol. Er enghraifft, gallai datblygiad o fwy na 5 annedd (yn hytrach na 10) gael ei ystyried yn fawr mewn tirweddau gwarchodedig. Fel y cyfeirir ato o dan C7 a C8 uchod, sut mae'r 'Prawf Datblygu Mawr' (para.5.5.6 o Bolisi Cynllunio Cymru) yn gysylltiedig â hyn?**

**Awgrymir hefyd petai'r dull gweithredu o dan C7 yn cael ei fabwysiadu, bod yr amser ar gyfer gwneud penderfyniadau yn cael ei amrywio yn dibynnu ar p'un a oes gofyn am gyngor cyn-ymgeisio. Os felly, byddai cyfnod o 8 wythnos o benderfynu yn berthnasol; os nad yw'n cael ei geisio, byddai hyn yn sbarduno**

**amser penderfynu o 16 wythnos.**

**Fel arall dylai fframiau amser gwneud penderfyniadau fod yn seiliedig ar gyfartaleddau (gweler yr ymateb i C29).**

| C10 | A ydych yn cytuno y dylai ceisiadau ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd fod yn ordodol yn destun hysbysiad ac ymgynghoriad cyn ymgeisio? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Er bod rhaid gwerthfawrogi bod y datblygiadau hyn yn aml yn gymhleth ac yn anodd i rai nad ydynt yn weithwyr proffesiynol eu deall, dylid gwneud ymdrech i sicrhau bod y crynodeb, casgliadau, cyfeirnodi a mynegeio yn mynd â phobl yn rhwydd at yr adrannau perthnasol. Yn aml, mae'r wybodaeth mor ddwys fel ei bod yn drysu ac yn gwrth-annog cyfranogwyr yn gynnar yn y broses.**

| C11 | A ydych yn cytuno y dylid codi ffi am gyngor cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau arfaethedig am Ddatblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Mae cyflwyniadau cyn-ymgeisio am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn amlwg yn debygol o fod angen swm sylweddol o fewnbwn gan Swyddogion. Dylai cyfran o'r ffi fynd i'r Awdurdodau Lleol, sy'n gymesur â'r cyngor a roddir.**

| C12 | A ydych yn cytuno mai Arolygiaeth Gynllunio Cymru yw'r corff mwyaf priodol i ymgymryd â'r gwaith o brosesu cais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Os codir ffi, dylai cyfran fynd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i dalu am eu cyfraniad. Dylai'r Arolygiaeth ddidoli'r gangen prosesu ceisiadau cynllunio oddi wrth apeliadau er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl a allai godi o fewn y sefydliad.**

**Cyfeirier hefyd at yr ateb i C7 uchod.**

| C13 | A ydych yn cytuno mai dim ond un cylch o ddiwygiadau y dylid ei ganiatáu i gais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd ar ôl iddo gael ei gofrestru'n ffurfiol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Ystyrir y byddai un cylch o ddiwygiadau yn rhesymol. Gallai mwy nag un cylch arwain at i'r broses fynd yn hynod feichus, costus a chymhleth i gyfranogwyr ei deall a chymryd rhan ynddi.**

**Ar ben hynny, ystyrir y dylai cwmpas y gwelliant gael ei ddiffinio'n glir ac yn gyfyngedig. Ni ddylai hyn fod yn gyfle i newid cyflwyniad yn radical, ond yn hytrach yn fwy o gyfle i'w fireinio.**

| C14 | A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ymdrin â chaniatadau cysylltiedig? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Mae hyn yn ymddangos yn gwbl briodol**

| C15 | A ydych yn cytuno y dylai'r broses ar gyfer ystyried y cais ddilyn gweithdrefn debyg i'r weithdrefn a gynigir ar gyfer ceisiadau a gaiff eu galw i mewn ac apelau? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| |
|---|
| **Dim sylwadau** |

| C16 | A ydych yn cytuno â'r modd y bwriedir rhannu cyfrifoldebau rhwng Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yn ystod y cam ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:
**Ystyrir y dylai cwblhau amodau fod yn gyfrifoldeb yr awdurdod sy'n penderfynu. Profiad yr NSIPs yw bod caniatâd yn aml yn gyfystyr â chaniatâd amlinellol ac mae'r amodau'n darparu'r manylion "materion neilltuedig". Mae lefel y manylder sydd i'w chyflawni o dan amodau prosiectau ar y raddfa hon yn golygu cryn dipyn o waith i'r ACLlau gydag adnoddau cyfyngedig, ac yn absenoldeb ffioedd ar gyfer y math hwn o waith, llai o gyllideb ar gyfer adnoddau o'r fath.**

**Nid yw chwaith mor hawdd i ACLl ddelio ag amodau sydd wedi eu gosod gan gorff penderfynu allanol yn hytrach na'i swyddogion ei hun, a gall materion sy'n ymwneud â dehongli ystyr mewn amodau fod yn anodd. Awgrymir yn gryf bod naill ai Gweinidogion Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am y cyfnod ar ôl penderfynu, neu fod ffi yn daladwy i'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn talu am gost y gwaith hwn.**

| C17 | A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno datganiad achos a datganiad drafft o dir cyffredin wrth gyflwyno apêl? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**'Ie' ar gyfer datganiad o achos, ond 'Na' ar gyfer y datganiad o dir cyffredin.**

**Ni ellid rhoi fawr o ystyr i SoCG oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd wedi cytuno arno fel drafft rhagarweiniol i'w gyflwyno. Yn ddiau, byddai drafft un-ochr gan yr ymgeisydd yn ddogfen hollgynhwysol a fyddai'n dangos y gellid a/neu y dylid cyrraedd cytundeb mewn rhai ardaloedd. Byddai amser yn cael ei wastraffu wrth gytuno ar y meysydd lle nad oes cytundeb, yn hytrach na threulio amser yn llunio dogfen gytunedig i'w chyflwyno fel 'ymdrech ar y cyd'.**

**Ystyrir y dylid darparu canllawiau ynglŷn â chynnwys Datganiad o Faterion Cyffredin, er mwyn osgoi oedi wrth ddarparu'r rhain lle nad oes gan apelwyr lawer o wybodaeth am y system.**

| C18 | A ydych yn cytuno mai'r Arolygiaeth Gynllunio ddylai benderfynu sut i ystyried apêl? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Mae'n wir fod rhai apeliadau wedi arwain at oedi a chostau lle mae apelyddion wedi mynnu ymddangos gerbron Arolygydd lle nad oedd hyn yn angenrheidiol. Mae'n rhesymol awgrymu bod rôl fwy rhagweithiol gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn debygol o leihau achosion o'r fath, a thrwy hynny gynyddu effeithlonrwydd a lleihau'r costau i bob parti.**

| C19 | A ydych yn cytuno na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys cais unwaith y bydd apêl wedi'i chyflwyno? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Mae'n gwbl resymol na ddylid caniatáu i'r ymgeisydd gael yr hawl i newid y cais ar y cam hwyr iawn hwn. Dylai hyn hefyd gynnwys cyflwyno ymgymeriadau unochrog.**

**Fel y cyfeiriwyd ato yn C18 uchod, byddai'r natur anrhagweladwy a fyddai'n deillio o ganiatáu i apelwyr newid cynnwys apêl ar ôl ei chyflwyno o bosibl arwain at ofyniad ymgynghori ychwanegol ac, o ganlyniad, gostau ychwanegol a phroses llai effeithlon.**

| C20 | A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru roi proses dyfarnu costau ar waith? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| C21 | A ddylid cyflwyno ffioedd i gwmpasu costau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag apêl? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

**Mae cefnogaeth ar gyfer cyflwyno ffioedd fel opsiwn i dalu costau Gweinidogion Cymru. Un opsiwn posibl yma fyddai’r potensial i ad-dalu ffioedd i'r apelydd ar apeliadau llwyddiannus.**

**Fodd bynnag, mae pryder y byddai hyn yn llawn materion sy'n ymwneud â 'hawliau' i apelio a'r gallu i ymgysylltu’n llawn â phroses. A allai fynd cyn belled â’i gwneud yn ofynnol cefnogi strwythur ar gyfer taliad tebyg i'r fframwaith 'cymorth cyfreithiol'? Gwell cynyddu costau cyflwyno’r cais cynllunio cychwynnol, a allai gynnwys cyfran o gostau'r apêl bosibl.**

| C22 | A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno Gwasanaeth Apelau Masnachol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

**Mae cefnogaeth i'r CAS. Mae'r ffigyrau yn awgrymu bod yr HAS wedi profi’n effeithlon, gyda phob apêl yn cael ei phenderfynu o fewn 8 wythnos. Ar yr amod y bydd y system CAS yn ymwneud â cheisiadau masnachol ar raddfa fechan yn unig, mae’r APCBB o'r farn bod hyn yn debygol o ehangu effeithlonrwydd yr Arolygiaeth Gynllunio dros ystod ehangach o gynigion.**

**Fodd bynnag, mae pryderon na fyddai hyn yn gwella effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd y system, ond y byddai’n ychwanegu haen arall o gymhlethdod. Y lleiaf yn y byd o fathau o apêl, y symlaf a haws i’w deall fydd y system. Wedi dweud hynny, mae APCAP yn cydnabod bod y treial deiliaid tai wedi gweithio'n dda iawn.**

**Gwella Cydweithrediad**

| C23 | A ydych yn cytuno y dylid uno awdurdodau cynllunio lleol i greu unedau mwy? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

**Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus wedi argymell gostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru, a fydd, os caiff ei dderbyn, yn arwain at nifer unedau cynllunio mwy o faint yn cael eu creu. Byddai gan hyn oblygiadau ar gyfer y system gynllunio yn ardaloedd yr awdurdodau lleol yr effeithir arnynt. Er ein bod yn cydnabod yr angen i adolygu'r trefniadau presennol, safbwynt Parciau Cenedlaethol Cymru yw y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau) barhau i fod yn annibynnol ac ni ddylent fod yn rhan o unrhyw unedau a unwyd a thrwy hynny cedwir nodweddion unigryw pob un o 3 ardal y Parciau Cenedlaethol.**

**Cafodd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol annibynnol sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain eu creu gan y llywodraeth gan eu bod wedi canfod nad oedd rheolaeth llywodraeth leol yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn effeithiol. Mae'r system gynllunio yn chwarae rhan ganolog wrth gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol. Byddai dileu neu wanhau pwerau cynllunio APCau yn tanseilio'r ffaith bod y pwrpasau yn cael eu cyflawni yn effeithiol.**

**Mae'r egwyddor hon o gynllunio parc - eang wedi gwrthsefyll prawf amser ac, o fewn y cyd-destun a osodwyd gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol annibynnol, wedi arwain at ddull cydlynol tuag at gynllunio defnydd tir, tir hamdden a swyddogaethau rheoli ymwelwyr.**

**Mae nifer o fanteision penodol i natur graddfa cymharol fach Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran darparu gwasanaethau cynllunio. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn agos at y bobl ac yn gallu sefydlu a chynnal cysylltiadau lleol cryf.**

**Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai uno gwasanaethau cynllunio yn cynnig gwell gwerth am arian cyhoeddus, nac ychwaith y byddai pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu darparu'n fwy effeithiol.**

**Pwysigrwydd annibyniaeth**

**Pan gafodd y Parciau Cenedlaethol eu sefydlu gyntaf yn y 1950au, rheolid hwy gan bwyllgorau yn perthyn i'r Cynghorau Sir. Yn gynnar yn y 1990au, penodwyd panel annibynnol dan gadeiryddiaeth Yr Athro Ron Edwards o Brifysgol Caerdydd i adolygu hanes a gweithrediad y Parciau dros y 40 mlynedd flaenorol a gosod allan weledigaeth ar gyfer eu dyfodol, gan gyhoeddi'r canfyddiadau yn yr adroddiad a adnabyddir fel adroddiad Edwards .**

**Gan ei bod wedi dod yn amlwg nad oedd rheolaeth llywodraeth leol yn cyflawni dibenion Parciau Cenedlaethol yn effeithiol, un o brif argymhellion yr adroddiad oedd creu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol unigol ac annibynnol.**

**Daeth yr adolygiad i'r casgliad canlynol:**

**"Byddai annibyniaeth yn caniatáu i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol osod ei agenda ei hun a'i ddilyn yn gaeth….. Er gwaethaf tystiolaeth bod rhai cynghorau sir yn dangos mwy o hyblygrwydd o safbwynt datganoli cyfrifoldebau, mae Parciau Cenedlaethol angen awdurdodau gyda rhyddid cyflawn i reoli eu hadnoddau cyllid, eu staff a'u heiddo eu hunain ac i fod yn gyfrifol am eu trefn weinyddol eu hunain, gan gynnwys y gwaith o gomisiynu gwasanaethau proffesiynol."**

**Yn y diwedd derbyniodd y Llywodraeth yr egwyddor a'r rhesymeg dros awdurdodau unigol ac annibynnol a chytunodd na allai cyngor sir, gyda'i gylch gorchwyl ehangach, roi'r un ffocws ac adnoddau i Barc Cenedlaethol â'r hyn y gallai Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) ei gynnig.**

**Ystyriai'r Llywodraeth y byddai gan statws annibynnol nifer o fanteision, gan gynnwys "gweledigaeth gliriach a hunan hyder, proffil uwch, rhyddid i reoli eu materion eu hunain yn ogystal ag ymroddiad llwyr i amcanion Parc Cenedlaethol" .**

**Cafodd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eu sefydlu yng Nghymru ym 1996, yn dilyn Deddf yr Amgylchedd 1995. Ers hynny, maent wedi gweithredu yn annibynnol oddi wrth lywodraeth leol, tra'n cadw mewn cyswllt cydweithredol cryf.**

**Cydnabu'r Llywodraeth hefyd y dylai pob Parc Cenedlaethol - er mwyn sicrhau cysondeb wrth ffurfio polisïau - gael ei ystyried yn ei gyfanrwydd ac y dylai'r cyfrifoldeb dros gynllunio manwl yn yr ardaloedd hynny orffwys ar ysgwyddau'r APC. Er mwyn sicrhau hyn, mynega Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991 ei bod yn ofynnol i gynhyrchu un cynllun lleol ar gyfer ardal y Parc cyfan.**

**Mae'r egwyddor hon o gynllunio dros Barc cyfan wedi profi ei werth ac, o fewn y cyd-destun a osodwyd gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, wedi arwain at agwedd gydlynol tuag at gynllunio defnydd tir, hamdden, digwyddiadau rheoli tir a digwyddiadau ar gyfer ymwelwyr, gyda chymunedau a busnesau o fewn y Parc yn derbyn budd oddi wrth fframwaith polisi cyson sydd yn weithredol dros y cyfan o ardal y Parc Cenedlaethol tra'n cadw nodweddion unigryw pob ardal o'r Parciau Cenedlaethol.**

Adolygiadau Polisi Llywodraeth Cymru ar Barciau Cenedlaethol

**Mae Llywodraeth Cymru yn achlysurol yn adolygu Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, felly mae nifer o adolygiadau polisi a datganiadau i edrych arnynt wrth ystyried pa mor effeithlon yw'r trefniadau rheoli presennol.**

**Yn 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau adolygiad annibynnol o'r Parciau Cenedlaethol. Yn 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi ar Barciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd yn nodi fel a ganlyn:**

"Mae swyddogaeth yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel yr awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer eu hardaloedd yn hanfodol bwysig, yn sail i'w dibenion statudol ac yn cyfrannu'n helaeth tuag at ddatblygu cynaliadwy".

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ddatganiad polisi i ddisodli'r datganiad hwn .

Yn 2012, comisiynodd Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru astudiaeth ar Ddarparu Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau Dynodedig Statudol yng Nghymru. (gwerthusiad LUC). Yr oedd hwn yn cydnabod:
"…pwysigrwydd bod tirweddau dynodedig statudol yn cael eu hunaniaeth glir eu hunain, ar wahân oddi wrth yr awdurdod(au) lleol cyfansoddol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cysondeb wrth gyflawni swyddogaethau cynllunio ar draws y dirwedd statudol".

Mae'r adolygiadau a'r datganiadau hyn wedi ail gadarnhau pwysigrwydd cynyddol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol annibynnol o safbwynt rheoli Parciau Cenedlaethol a'r manteision a ddaw wrth i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw eu pwerau cynllunio.

Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Cafodd y rhesymeg o blaid bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn gweithredu'n annibynnol – a phwysigrwydd hynny – ei gydnabod yn eglur gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus , oedd yn trafod cwestiwn 23 fel rhan o'i waith.

Yn dilyn ymchwiliad a chasglu tystiolaeth drylwyr, daeth y Comisiwn i'r casgliad canlynol:

"Ar y cyfan, nid ydym yn credu bod achos teilwng dros ddileu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a throsglwyddo eu dyletswyddau i awdurdodau lleol…" (para. F.21).

Roedd wedi dod i'r casgliad y byddai ffocws penodol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar ddiogelu a hyrwyddo mynediad cynaliadwy i Barciau Cenedlaethol mewn perygl pe trosglwyddid eu dyletswyddau i awdurdodau lleol (para. 2.60). Yn hytrach, argymhellodd y Comisiwn bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn adeiladu ar eu hymdrechion cydweithredol presennol ac yn datblygu dulliau clir a chyson o gydweithio gyda'i gilydd a gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau ac arbenigedd prin.

Cyn belled ag y gwyddom nid yw barn rhai arweinwyr awdurdodau lleol - y dylai nifer o ddyletswyddau APC gael eu gweithredu gan eu cyngor sir perthnasol - yn adlewyrchu barn awdurdodau yn gyffredinol. Ni chafodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ei argyhoeddi ac nid oedd tystiolaeth i gefnogi hyn. Rydym yn nodi na wnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru unrhyw gais am drosglwyddo dyletswyddau cynllunio nac unrhyw ddyletswyddau eraill sydd gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i ddwylo awdurdodau lleol.

**Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai gwasanaethau cynllunio unedig yn cynnig gwell gwerth am arian cyhoeddus, nac y byddai amcanion y Parciau Cenedlaethol yn cael eu gweithredu yn fwy effeithlon gan awdurdodau lleol, sydd ag iddynt gylch gorchwyl llawer ehangach ac sydd eu hunain yn wynebu cyfnod hir o newid a gostyngiad sylweddol mewn adnoddau.**

**Byddai trosglwyddo dyletswyddau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i ddwylo llywodraeth leol yn creu model sydd eisoes wedi ei dreialu ac sydd wedi methu o safbwynt cyflawni amcanion Parciau Cenedlaethol, ac sydd hefyd wedi ei wrthod gan y Comisiwn Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**Manteision Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn gweithredu ar raddfa fach o safbwynt darparu gwasanaeth cynllunio**

**Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn gweithredu ar raddfa gymharol fach ac mae i hyn fanteision amlwg o safbwynt darparu gwasanaeth cynllunio, gan gynnwys:**

- **Llai o le i fiwrocratiaeth, gwell ansawdd o safbwynt darpariaeth a gwasanaeth**

- **Llunwyr penderfyniad yn fwy hygyrch ac ymatebol.**

- **Rhyngwyneb agos gyda ffermwyr, tirfeddianwyr, busnesau lleol a'r cyhoedd yn gyffredinol.**

- **Perthynas waith dda gydag asiantaethau cynllunio lleol.**

- **Agwedd hyblyg a phroactif tuag at reoli datblygu**

- **Pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, gan sicrhau rhagor o fudd i amcanion y Parc Cenedlaethol ac i'r cymunedau.**

- **Cydweithio yn dod yn arferiad, gan arwain at arbedion sylweddol i'r pwrs cyhoeddus.**

**Gellir cael rhagor o fanylion ar yr uchod yng nghyflwyniad Parciau Cenedlaethol Cymru i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus .**

**Cydweithio – y ffordd ymlaen**

**Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn llwyr gefnogi argymhelliad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus bod yn rhaid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddatblygu dulliau clir a chyson o gydweithio â'i gilydd, gydag awdurdodau lleol, gyda Chroeso Cymru a gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Canmolodd y Comisiwn yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol am rannu dyletswyddau 'cefn swyddfa' ac adnoddau darparu gwasanaeth ond ar yr un pryd roedd yn eu hannog i fynd gam ymhellach, gan gasglu "fod o bosibl le i wella sgôp effeithiolrwydd a chydweithrediad o fewn gweithgaredd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol".**

**Cydweithio gydag awdurdodau cyfansoddol lleol**

Mae tri APC Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'u hawdurdodau cyfansoddol lleol a chyrff eraill er mwyn cyflawni gwell lefel o gydweithrediad ar ddarparu gwasanaethau. Mae cydweithio eisoes wedi arwain at arbedion sylweddol i'r pwrs cyhoeddus e.e. yn ystod 2011-12 gwnaeth Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru arbediad o tua £2.2 miliwn trwy weithio gyda'i gilydd. Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd yn cydweithio ar lefel ranbarthol ac ar faterion economaidd yn ogystal â materion eraill yn ymwneud â defnydd tir e.e. mae APC Eryri yn arwain ar ddarparu Strategaeth Tir Cyflogaeth Gogledd Cymru mewn cydweithrediad â holl Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) Gogledd Cymru. Maent yn edrych ar safleoedd cyflogaeth strategol ledled y rhanbarth a'r angen am dir dros yr 20 mlynedd nesaf.

Adroddodd Para 3.15 o Werthusiad LUC bod yr holl APCau wedi ymrwymo i drefniant ffurfiol i rannu adnoddau / arbenigedd ar nifer o faterion sydd a wnelo cynllunio, gan gynnwys:

• Arfordir Penfro APC yn rhannu swyddog ceisiadau cynllunio mwynau gyda Sir Caerfyrddin (nid yw'n ACLl cyfansoddol ) ac mae'r APC yn eistedd ar y Grŵp Cyswllt Mwynau ar gyfer yr ardal ehangach. Mae yna berthynas gref iawn gyda Chyngor Sir Penfro gyda hwylusydd tai fforddiadwy ar y cyd, gweithio'n agos ar ddarparu tai, priffyrdd, a thwristiaeth a datblygu economaidd hefyd.

• Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gytundeb lefel gwasanaeth gyda Sir Gaerfyrddin ar gyfer darparu cynllunio mwynau a gwasanaethau cyfreithiol; ymgymerir â rhai o'r swyddogaethau cynllunio Cyngor Sir Powys ar eu rhan yng nghyffiniau'r Parc Cenedlaethol, a gweithiwyd gyda Chyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn perthynas â chyngor ar gadwraeth adeiladau. Mae'r APC, ymhlith pethau eraill, hefyd yn chwarae rhan fawr mewn partneriaethau adfywio ar hyd ei ffin ddeheuol.

• Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ariannu hwyluswyr swyddogion tai gwledig ar y cyd gyda'u dau awdurdod lleol cyfansoddol, Gwynedd a Chonwy, ac mae'n rhan o gonsortiwm o Awdurdodau Cynllunio Lleol y gogledd sydd wedi sefydlu uned cynllunio mwynau ar y cyd yn Sir y Fflint i ddarparu cynllunio mwynau ar eu rhan. Mae'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn arwain ac yn eistedd ar nifer o Fyrddau gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Lleol Cyngor Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, Partneriaeth Tai Gwynedd, Economi Werdd ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Fforwm Economaidd Gogledd Cymru.

Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn awyddus i ddatblygu cydweithrediad gydag awdurdodau cyfansoddol lleol er mwyn gallu cyfnewid gwybodaeth a hefyd er mwyn gwneud y defnydd helaethaf posibl o adnoddau prin e.e. Mae APC Eryri wedi gweithio'n agos gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Chonwy ar faterion sydd a wnelo'r iaith Gymraeg, hyfywedd a chomisiynwyd astudiaeth ar y cyd gyda Gwynedd ar Sensitifrwydd Tirwedd. Mae gan APC Bannau Brycheiniog Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu swyddogaeth Cyfreithiwr i'r Awdurdod.

**Cydweithio rhwng y tri APC**

**Mae'n hysbys fod rhagor o sgôp ar gyfer mwy o gydweithio rhwng y tri APC o safbwynt darparu gwasanaethau corfforaethol, gan adeiladu ar y cynnydd ardderchog sydd eisoes wedi ei gyflawni. Mae gan y tri APC yng Nghymru eisoes nifer o raglenni gwaith ar y gweill, yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio a chwilio am ddeilliannau cynllunio fydd o fudd iddynt oll e.e. mae'r tri APC wedi comisiynu astudiaeth i gyfleoedd gweithio ar y cyd ar gyfer eu hadrannau cynllunio, ac, yn dilyn cais ar y cyd i Gronfa Gwella Cynllunio, maent yn cyd gynhyrchu cyfarwyddyd cynllunio atodol ar ddatblygu cynaliadwy - gyda'r bwriad o ddiffinio pa fath o ddatblygu cynaliadwy sydd yn addas mewn Parciau Cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn ymateb uniongyrchol i argymhelliad 7 o werthusiad y LUC ac mae'n enghraifft dda o gydweithio cyflym a phroactif er mwyn hyrwyddo datblygu economaidd cynaliadwy a helpu busnesau lleol i gyflwyno cynlluniau economaidd newydd.**

**A derbyn bod y tri APC erbyn hyn wedi mabwysiadu eu Cynlluniau Datblygu Lleol, mae rhagor o sgôp ar gyfer cydweithio i sicrhau y gweithredir y cynlluniau hyn. Gan fod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gyffredinol yn arafach yn paratoi eu cynlluniau datblygu, byddai hynny hefyd yn ffactor yn erbyn uno'r dyletswyddau cynllunio e.e. gallai uno APC Eryri gyda Gwynedd / Môn arafu unrhyw broses adolygu y byddai'r APC yn ei gynnig, gan na chaiff Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd / Môn ei fabwysiadu hyd 2016 fan gyntaf.**
**At hynny, nid yw pedwar allan o'r naw Awdurdod cyfansoddol o fewn y Bannau Brycheiniog (Castell Newydd Emlyn, Powys, Sir Fynwy a Chaerfyrddin) y tri olaf yw'r awdurdodau mwyaf yn ardal y Parc Cenedlaethol) wedi mabwysiadu eu CDLl hyd yma.**

**Byddai rhagor o effeithiolrwydd o safbwynt darparu gwasanaethau corfforaethol yn caniatáu i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gynnal ffocws cryf ar ddarparu gwasanaethau craidd blaengar mewn meysydd fel cadwraeth. Ni ellir dilyn y dyletswyddau hyn o bellter gan eu bod yn gofyn am adnabyddiaeth leol a manwl o'r dirwedd unigryw a diwylliant, a gweithio gyda phartneriaid lleol, cymunedau lleol a busnesau a thirfeddianwyr / rheolwyr tir lleol. Bydd yr adolygiad yr ymgymerir ag ef gan Lywodraeth Cymru yn 2014 yn cynnig cyfle i adolygu a symud ymlaen gyda'r cynnydd a wnaed eisoes gyda modelau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau corfforaethol a chefnogi digwyddiadau.**

**Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn credu bod sgôp hefyd ar gyfer rhagor o gydweithio ar gynllunio gyda'r pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yng Nghymru, trwy ddefnyddio dulliau gweithio cyffelyb a rhannu ymarfer da ac arbenigedd. Mae canllawiau rhyngwladol ar reoli ardaloedd gwarchodedig a'r agwedd ecosystem yn cyfeirio at edrych ar dirweddau gwarchodedig fel system, a fyddai'n addas i gynllun cenedlaethol, aml-ardal. Mae'r Datganiad Polisi newydd ar Dirweddau Gwarchodedig - a gaiff ei gyhoeddi yn 2014 gan Lywodraeth Cymru - yn cynnig fframwaith a fydd yn ei gwneud yn bosibl cynnal trafodaeth gynhyrchiol ar y modd y gellir cyflawni hyn, gan awgrymu un cynllun rheoli ar gyfer yr holl dirweddau gwarchodedig yng Nghymru. Dylid rhoi ystyriaeth i'r modd y gellid integreiddio cynllun o'r fath gyda chynlluniau Cyfoeth Naturiol Cymru a sut y gellid sicrhau parch i elfennau unigryw pob ardal.**

**Casgliad**
**Yn olaf, ni ellir gwneud achos credadwy dros uno Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill i greu unedau cynllunio mwy o faint, fel yr awgrymwyd gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn hytrach, dylid anelu’n gyson at ragor o gydweithio gydag awdurdodau lleol, asiantaethau megis Croeso Cymru a rhwng y tri APC a’i gilydd.**

| C24 | A ydych o'r farn y dylai awdurdod parc cenedlaethol barhau'n gyfrifol am gynllunio yn ei ardal? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Dylai. Oherwydd bod awdurdodau lleol cyfansoddol yn ysgwyddo cyfrifoldebau cymdeithasol ac economaidd, mae’r ddogfen ymgynghori yn nodi bod gweithio gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn hanfodol er mwyn sicrhau penderfyniadau a chanlyniadau cynaliadwy. Rydym yn cytuno, ac fel yr amlinellir yn ein hymateb i gwestiwn 23, rydym yn credu mai rhagor o gydweithredu yw’r ffordd ymlaen gan fod hyn yn adlewyrchu’r sefyllfa gyfreithiol bresennol a hefyd ddiwylliant gweithredol yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a’u hymroddiad cryf i weithio mewn partneriaeth.**
**Mae llawer o enghreifftiau o gydweithio effeithiol rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol a rhwng y tri APC eu hunain. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn derbyn bod lle ar gyfer mwy o gydweithio.**

**Mae nifer o fanteision i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol weithredu fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn anad dim y gallu i gynllunio yn unol â ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn darparu cysondeb ar draws y dirwedd ddynodedig, aliniad gyda Chynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a ffocws clir ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Heb swyddogaeth gynllunio yr APC byddai dull anghyson o reoli datblygiad. Byddai diffyg cydlyniad rhwng y rheolwyr a chynllunio datblygiad ac o ganlyniad byddai’n tanseilio'r drefn o gyflawni pwrpasau’r Parc Cenedlaethol.**

**Canfu gwerthusiad annibynnol gan LUC yn gyffredinol bod y system gynllunio yn gweithio'n dda mewn Parciau Cenedlaethol. Mae tri APC Cymru wedi gwneud cynnydd ardderchog o ran cynlluniau datblygu lleol ac yn perfformio'n dda ar reoli datblygu. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu cydnabod fel enghreifftiau o lywodraethu da mewn llywodraeth leol, sy'n darparu cyd-destun sefydlog ar gyfer darparu eu gwasanaethau cynllunio. Ceir safonau uchel o ran darparu gwasanaeth wynebu - cwsmeriaid mewn Parciau Cenedlaethol, yn seiliedig ar ymrwymiad i dryloywder a bod yn agored.**

**Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yw’r cyrff cyflawni allweddol ar gyfer cynigion yn y Mesur Amgylchedd a hefyd Mesur Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae cadw’r cyfrifoldeb dros gynllunio yn hanfodol i Awdurdodau Parciau**

**Cenedlaethol os ydynt am fod ar flaen y gad wrth weithredu agenda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy yn y dyfodol.**

**Tystiolaeth o gydweithio effeithiol**

**Mae amheuaeth ynghylch yr haeriad yn yr ymgynghoriad bod tystiolaeth o gydweithio effeithiol yn gymysglyd, yn enwedig lle mae'n ofynnol i APC weithio gyda nifer sylweddol o awdurdodau lleol. Mae nifer fawr o enghreifftiau o gydweithio effeithiol, gan gynnwys enghreifftiau lle mae hyn yn golygu gweithio gyda nifer o awdurdodau lleol. Yr enghraifft orau o hyn yw'r gwaith darparu a gweithredu Cynlluniau Rheolaeth y Parciau Cenedlaethol, sydd yn cydlynu ac yn integreiddio'r holl gynlluniau, strategaethau a gweithrediadau o fewn ffiniau'r Parc. Ym Mannau Brycheiniog, mae'r cynllun yn gosod allan strategaethau 20 mlynedd a chynlluniau gweithredu 5 mlynedd gan ac ar gyfer pawb sydd yn cyflawni ei ddibenion a'i ddyletswyddau, neu sydd yn bryderus ynghylch dyfodol y Parc. Mae'r Cynllun yn hyrwyddo gweithredu, monitro a gwerthuso digwyddiadau yn gydlynol ac ar y cyd gan nifer fawr o bartneriaid a chyfran ddeiliaid.**

**Mae'r Cynllun Gweithredu yn adnabod nifer fawr o sefydliadau arweiniol a phartneriaid ar gyfer cyflawni pob un o'r rhain. Fel y nodir yn gyson yn y Cynllun mae hyn yn gofyn am ymdrechion unedig ac ymroddedig gan bawb sydd yn ymwneud â rheolaeth y Parc. Mae dyfodol y Parc yn dibynnu ar bartneriaethau cadarn, yn enwedig mewn cyfnod lle mae adnoddau yn brin. Nodir yn glir bod yr Awdurdodau Unedol sydd yn gweithredu o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn bartneriaid hanfodol ar gyfer cyflawni nifer fawr o'r cynlluniau hyn.**

**Nodir rhagor o dystiolaeth o gydweithio cyfredol yn ein hymateb i gwestiwn 23. Er ein bod yn derbyn bod sgôp ar gyfer rhagor o gydweithio gydag awdurdodau lleol cyfansoddol, rydym am dynnu sylw at ganfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus sydd yn canmol yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol am rannu digwyddiadau 'cefn swyddfa' ac adnoddau darparu gwasanaeth, er yn cydnabod bod sgôp ar gyfer gwneud mwy.**

**Yn 2012, comisiynodd Cyfadran Cynllunio Llywodraeth Cymru astudiaeth ar Gyflawni Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau Dynodedig Statudol (gwerthusiad LUC). Adroddodd Para 3.15 o'r gwerthusiad bod yr holl APCau wedi ymrwymo i drefniadau ffurfiol i rannu adnoddau ar nifer o faterion sydd a wnelo cynllunio, gan gynnwys:**

- **APC Arfordir Penfro yn rhannu swyddog ceisiadau cynllunio gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin (nad yw'n Awdurdod Cynllunio Lleol cyfansoddol) ac mae'r APC yn eistedd ar y Grŵp Cydlynu Mwynau ar gyfer yr ardal ehangach. Mae ganddo hefyd gysylltiadau cryf iawn gyda Chyngor Sir Benfro lle ceir un swyddog galluogi rhyngddynt ar gyfer tai fforddiadwy, priffyrdd a datblygu economaidd.**

- **Mae gan APC Bannau Brycheiniog gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin ar gyfer cyflawni dyletswyddau cynllunio mwynau mae'n cyflawni rhan o waith cynllunio Cyngor Sir Powys yng nghyffiniau'r Parc Cenedlaethol; ac mae wedi gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn perthynas â chyngor ar gadwraeth**

adeiladau. Mae'r APC hefyd, ymysg pethau eraill, yn ymwneud yn helaeth gyda phartneriaethau adfywio sydd wedi eu lleoli ar ei ffin ddeheuol.

- Mae APC Eryri yn ariannu swyddogion galluogi gwledig ar y cyd gyda'u dau awdurdod lleol cyfansoddol, Gwynedd a Chonwy, ac yn aelodau o gonsortiwm Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru sydd wedi sefydlu uned cynllunio mwynau ar y cyd yn Sir y Fflint ar eu rhan. Mae Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cynllunio APC Eryri yn arwain / yn aelodau o nifer o Fyrddau gan gynnwys Bwrdd Gwasanaethau Lleol Cyngor Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Partneriaeth Tai Gwynedd, Economi Gwyrdd ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Fforwm Economaidd Gogledd Cymru.

Manteision i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fod yn gweithredu swyddogaeth cynllunio

Mae nifer o fanteision i APC weithredu fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn bennaf y gallu i gynllunio yn unol â ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn arwain at gysondeb ledled y dirwedd ddynodedig, cydymffurfiant gyda Chynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a ffocws clir ar ddibenion Parciau Cenedlaethol.

Yn arwyddocaol, dyma gasgliad Gwerthusiad ar y mater hwn;

…mantais allweddol cynllunio yn unol â ffiniau Parc Cenedlaethol yw y gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fabwysiadu agwedd gyson dros y cyfan o ardal y Parc Cenedlaethol yn eu Cynllun Datblygu Lleol, waeth ble mae ffiniau'r awdurdod lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl rhoi ffocws clir ar ddibenion Parc Cenedlaethol ac yn sicrhau cydymffurfiant gyda Chynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, gan greu agwedd gyson a ffocws clir ar draws pob Parc Cenedlaethol. (para. 4.6).

…cydnabyddir pwysigrwydd rhoi eu hunaniaeth eu hunain i dirweddau sydd wedi eu dynodi yn statudol, ar wahân i'r hyn a ddynodir gan yr awdurdod(au) lleol cyfansoddol, er mwyn ceisio â sicrhau cysondeb wrth gwblhau swyddogaethau cynllunio ar draws y dirwedd statudol. (para. 4.18)

Mae datganiad polisi cyfredol Llywodraeth Cymru ar Barciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn nodi fel a ganlyn:

"mae rôl yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer eu hardaloedd yn un hanfodol bwysig, yn rôl sydd yn sail gref i'w dibenion statudol ac yn rôl sydd yn cyfrannu tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy".

Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod bod Parciau Cenedlaethol yn asedau cenedlaethol – nid asedau lleol yn unig. Canfu gwaith ymchwil annibynnol gan ARUP ar werthoedd Parciau Cenedlaethol Cymru bod cyfanswm economi y Parciau Cenedlaethol yn cyfrif am £557m o GVA, sydd yn cynrychioli 1.2% o economi Cymru. Mae gweithgaredd economaidd sydd yn ymwneud â gwarchod neu reoli'r amgylchedd, neu sydd yn ddibynnol mewn rhyw fodd ar yr amgylchedd yn cynnal 10,738 o swyddi yn uniongyrchol o fewn Parciau Cenedlaethol a 2,033 o swyddi pellach ar draws Cymru gyfan. Mae'r Parciau yn croesawu 12 miliwn o ymwelwyr yn flynyddol a'r

**rhai hynny yn gwario tua £1bn ar nwyddau a gwasanaethau. Mae'r gweithrediad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wrth ymgymryd â'r drefn cynllunio yn sail gadarn ac yn gefn i'r swyddogaeth economaidd hon.**

**Felly, mae'n amlwg nad yw statws Parc Cenedlaethol a rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel awdurdodau cynllunio yn rhwystr i gynllunio positif na pherfformiad da, fel y mae rhai yn credu. Tystiolaeth bellach o hyn yw'r ffaith bod dau barth menter wedi eu sefydlu o fewn Parciau Cenedlaethol - Haven Waterway yn Arfordir Sir Benfro a chyn safleoedd datblygu yn Nhrawsfynydd a Llanbedr yn Eryri . Mae'n bosibl sefydlu datblygiadau mawr o fewn Parciau Cenedlaethol - ac mae hyn yn digwydd e.e. datblygiad South Hook LNG yn Arfordir Sir Benfro .**

**Caiff manteision sydd i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol weithredu swyddogaeth cynllunio eu cydnabod hefyd gan RTPI Cymru yn ei ymateb drafft i'r ymgynghoriad Cynllunio Cadarnhaol, gan nodi fel a ganlyn:**

**"Yn y pen draw, mae ardaloedd yn cael eu dynodi fel Parciau Cenedlaethol oherwydd ansawdd a hynodrwydd eu tirwedd a'u treftadaeth – eu hynodrwydd fel lleoedd. Mae'r swyddogaeth gynllunio yn fecanwaith allweddol ar gyfer gwella a chynnal y gwerthoedd hynny. Byddai amddifadu'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o'r swyddogaeth hon yn tanseilio eu heffeithiolrwydd yn fawr. Byddai yn gosod gwerthoedd arbennig y Parciau Cenedlaethol eu hunain mewn perygl."**

**Cynrychiolaeth leol**

**Nodir yn y ddogfen ymgynghorol bod cymunedau lleol a rhai busnesau yn datgan barn bod eu buddiannau hwy yn aml yn cael eu hanwybyddu, a bod hynny yn rhannol oherwydd diffyg cynrychiolaeth leol effeithiol ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eisoes gynrychiolaeth leol gref trwy aelodau a benodir gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol ac mae'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau yn yr APC yn aml yn fwy hygyrch na swyddogion cyfatebol yr awdurdod lleol. Trafodwyd atebolrwydd lleol gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, ac argymhellwyd y dylai aelodau APC a enwebir gan awdurdod lleol gynrychioli wardiau sydd yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn ardal y Parc, ac os nad yw hynny'n bosibl, o leiaf yn rhannol o fewn ardal y Parc. Mynegwyd y farn hon hefyd gan y tri APC yn eu cyflwyniad i'r Comisiwn.**

**Roedd y Comisiwn hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai etholiadau uniongyrchol yn cryfhau atebolrwydd lleol, er nad oedd wedi derbyn tystiolaeth gadarn dros hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu dyletswyddau llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn 2014 a bydd hynny yn rhoi cyfle i drafod y materion hyn yn fanylach. Fodd bynnag, nid yw unrhyw un o'r materion atebolrwydd hyn yn rheswm dros amddifadu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o'u cyfrifoldeb ym maes cynllunio.**

**Tystiolaeth ar berfformiad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel awdurdodau cynllunio lleol**

**Gwerthuso annibynnol**

**Mae rôl y system gynllunio i reoleiddio'r defnydd o dir er budd y cyhoedd yn un heriol ac yn fwyaf heriol yn achos tirweddau sensitif megis y Parciau Cenedlaethol. Yn 2012 ymgymerwyd â gwerthusiad o'r gwasanaethau cynllunio o fewn tirweddau dynodedig statudol yng Nghymru gan Ymgynghorwyr Defnydd Tir (Land Use Consultants - LUC) ar ran Llywodraeth Cymru. Canfuwyd bod y system cynllunio ar y cyfan yn gweithio'n dda mewn Parciau Cenedlaethol. Caiff hyfforddiant aelodau ei gwblhau yn drwyadl iawn yn y tri APC yng Nghymru ac argymhellir sesiynau rheolaidd a sesiynau ar y cyd yn ogystal â thrafodaethau cyn ymgeisio – barnwyd bod y rhain yn ddefnyddiol iawn.**

**Canfu'r gwerthusiad bod y tri APC wedi cychwyn trefniadau ffurfiol ar gyfer rhannu adnoddau / arbenigedd. Roedd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod y cynnydd oedd wedi ei gyflawni o safbwynt cydweithio a chanmolwyd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol am gydweithio'n dda gan rannu digwyddiadau 'cefn swyddfa' a hefyd adnoddau darparu gwasanaeth.**

**Canfu gwerthusiad LUC nifer fawr o enghreifftiau o ymarfer da o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yn ogystal â pherfformiad da o safbwynt dangosyddion cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio. Ar lefel leol, canfuwyd bod Cynllun Datblygu Lleol pob Parc Cenedlaethol yn cynnwys cyd-destun polisi cyson ar gyfer cynllunio hyd at ffin y dirwedd ddynodedig statudol, yn unol â dibenion Parc Cenedlaethol. Dylid cymharu hyn gyda'r sefyllfa anghyson a ganfu'r gwerthusiad mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), oherwydd bod nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ymwneud â'u rheolaeth. 'Does dim tystiolaeth i gefnogi'r honiadau nad yw'r APCau yn perfformio'n dda.**

**Heb ddyletswyddau cynllunio APC fe fyddai agwedd anghyson tuag at reoli datblygu. Byddai hyn yn arbennig o broblemus ym Mannau Brycheiniog oherwydd bod nifer helaeth o awdurdodau lleol yn yr ardal (ar y funud mae naw awdurdod unedol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, byddid yn gostwng y nifer i chwech pe câi argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus eu derbyn). Byddai hyn yn arwain at ddiffyg cydlyniad rhwng rheoli a chynllunio datblygu ac yn tanseilio'r gwaith o gyflawni amcanion y Parciau Cenedlaethol. Mae pwysigrwydd cynllunio wrth gefnogi bioamrywiaeth o fewn Parciau Cenedlaethol wedi ei gydnabod gan y Gweinidog yn ei lythyr grant strategol ar gyfer 2013-14 .**

**Cynlluniau datblygu lleol**

**Mae pob un o'r tri APC wedi gwneud cynnydd ardderchog ar gynlluniau datblygu lleol . APC Arfordir Sir Benfro oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu ei gynllun, cafodd Cynllun Datblygu Lleol APC Eryri ei fabwysiadu yn 2011 (yr awdurdod lleol cyntaf yng Ngogledd Cymru i fabwysiadu) a chafodd cynllun APC Bannau Brycheiniog ei fabwysiadu yn 2013. Golyga hyn bod y Parciau Cenedlaethol yn perfformio'n well na nifer o awdurdodau lleol eraill (yn cynnwys Gwynedd, Powys, Sir Fynwy a Sir Gaerfyrddin) a bod gan gymunedau a busnesau o fewn y Parciau Cenedlaethol fframwaith polisi fwy cadarn a chyfredol na'u cymdogion i ymateb i'w hanghenion a'u dyheadau.**

**Rheoli datblygu**

**O safbwynt rheoli datblygu, mae'r tri APC yn perfformio cystal ag awdurdodau lleol gwledig eraill. Mae gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hanes blaenorol o weithredu gwasanaeth cynllunio ymatebol da e.e. yn Arfordir Sir Benfro caiff 89% o achosion Gorfodaeth Cynllunio eu datrys o fewn 12 wythnos. Mae ystadegau cynllunio diweddar gan Lywodraeth Cymru ar gyflymder wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn dangos bod cyflymder penderfynu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar gyfartaledd (tua 67%) bron yn gyfartal â pherfformiad y 9 awdurdod cynllunio lleol (tua 68%).**

**Mae astudiaeth o'r fframwaith perfformiad cynllunio – "indicator dashboard " – a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghorol 'Cynllunio Cadarn' yn dangos bod y tri APC yn perfformio'n dda ar draws y sbectrwm cynllunio.**

**Canfu'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ei bod, yn wyneb y dystiolaeth, "yn anodd…. dod i'r casgliad bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn tanberfformio" (para. F.20), mynegwyd amheuaeth a fyddai gan eraill yr adnoddau na'r arbenigedd i ysgwyddo rheolaeth y Parciau Cenedlaethol a daethpwyd i'r casgliad y byddai trosglwyddo cyfrifoldebau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i awdurdodau lleol yn cael effaith andwyol ar werthu brand y Parciau Cenedlaethol a hyrwyddo'r Parciau fel cyrchfannau ymwelwyr. Caiff gwerth economaidd brand y Parciau Cenedlaethol ei gydnabod yn yr adroddiad Rhoi Gwerth ar Barciau Cenedlaethol Cymru (ARUP, 2013) , gydag amcangyfrif o 12 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn yn gwario £1bn ar nwyddau a gwasanaethau. Mewn arolwg cenedlaethol yn 2009 cafodd Parc Cenedlaethol Eryri ei gydnabod fel y Parc Cenedlaethol mwyaf adnabyddus yn y Deyrnas Unedig. Mae'n berygl y byddai'r proffil brand unigryw hwn yn cael ei golli o fewn awdurdod mwy.**

**Mae dwy gymuned o fewn Eryri (a gynrychiolir gan Gyngor Cymuned Llanberis a Chyngor Tref Ffestiniog) wedi gwneud cais ffurfiol i gael eu cynnwys o fewn y Parc Cenedlaethol oherwydd y buddion y maent hwy yn ei deimlo fyddai hyn yn ei gynnig i'w cymunedau a'r fantais gystadleuol sy'n cael ei gynnig trwy gyfrwng brand y Parc Cenedlaethol.**

**Rhoi cwsmeriaid yn ganolog wrth ddarparu gwasanaeth**

**Mae llawer iawn o dystiolaeth o'r safonau uchel a geir o safbwynt darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cwsmer yn y Parciau Cenedlaethol e.e. yn 2012 derbyniodd APC Eryri dystysgrif Safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmer oddi wrth Swyddfa'r Cabinet am gyrraedd safon eithriadol yn y maes hwn, gyda chymeradwyaeth arbennig am wrando a deall anghenion defnyddwyr cyn buddsoddi a gwella'r gwasanaeth darparu. Derbyniwyd y wobr yr eildro yn 2013. Cafodd APC Eryri ganmoliaeth uchel gan GLILC (WLGA) am ei ymateb i newid yn yr hinsawdd adeg cyflwyno gwobrau Rhagoriaeth Cymru.**

**Mae pob APC yn llunio arolygon defnyddwyr yn rheolaidd fel rhan o fonitro a gwella gwasanaeth. Ym Mannau Brycheiniog mae cymharu graddfeydd boddhad**

**cwsmeriaid gyda'r gwasanaeth a dderbynnir wedi cynyddu o 76% yn 2010-11, i 88% yn 2011-12 i 91% yn 2012-13. Yn Eryri, roedd lefel boddhad cyffredinol ymgeiswyr cynllunio gyda'r gwasanaeth cynllunio yn 93% yn 2012-13, ac roedd lefel boddhad gyda'r cyngor a dderbyniwyd gan swyddogion cynllunio yn 97%. Yn Arfordir Sir Benfro, yn 2012/13 roedd lefel boddhad cyffredinol gyda'r gwasanaeth yn 85%. Mae gan bob APC ei gynllun gwella gwasanaethau a chaiff hwn ei fonitro a'i ddiweddaru yn rheolaidd.**

**Mae pob APC yn cynnal cyfarfodydd blynyddol gydag asiantau cynllunio a / neu yn diweddaru eu cylchlythyrau i drafod pryderon a materion cyfoes. Yn 2013, roedd 100% o'r asiantau cynllunio a oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyswllt blynyddol yn Eryri wedi rhoi adborth cadarnhaol ar nifer o agweddau ar berfformiad cynllunio'r APC, gydag un yn nodi "...y dylid eich canmol am drefnu'r cyfarfodydd rheolaidd hyn. Hoffwn weld yr awdurdodau lleol yn gwneud hyn hefyd" . Yn ystod y cyfarfod, roedd yr asiantau wedi mynegi'n ddigon agored y byddai'n well ganddynt weld APC Eryri yn parhau i fod yn annibynnol ar ei awdurdodau cyfansoddol - nid oedd unrhyw alw i weld swyddogaeth gynllunio APC Eryri yn cael ei huno â'r ACLlau cyfansoddol.**

**Tystiolaeth o lywodraethu da yr APCau**

**Cydnabyddir bod yr APCau yn enghreifftiau o lywodraethu da mewn llywodraeth leol sy'n darparu cyd-destun sefydlog ar gyfer darparu eu gwasanaethau cynllunio e.e. mae pob un o'r tri APC wedi cyflawni'r siarter ar gyfer datblygu aelodau ac mae APC Bannau Brycheiniog yn un o ddim ond dau awdurdod yng Nghymru i gyrraedd y siarter uwch ar gyfer datblygu aelodau . APC Bannau Brycheiniog oedd yr awdurdodau cyntaf yng Nghymru i we ddarlledu ei holl gyfarfodydd pwyllgorau fel rhan o'i ymrwymiad i dryloywder. Mae'r tri APC wedi dal y Safon Buddsoddwyr mewn Pobl ers rhai blynyddoedd.**

**Cafodd cod ymddygiad ar wahân APC Arfordir Penfro ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio ei enwi gan y Grŵp Cynghori Annibynnol ym mis Mehefin 2012 yn ei adroddiad Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol a hysbysodd argymhelliad y Grŵp ar gyfer cod ymddygiad cenedlaethol ar gyfer aelodau pwyllgorau cynllunio.**

**Mae'r APCau yn defnyddio ystod o dechnegau i gynnwys pobl mewn penderfyniadau ar ddarparu gwasanaeth cynllunio a pherfformiad e.e. bu APC Bannau Brycheiniog yn gweithio gyda Chymorth Cynllunio Cymru i gynnwys cymunedau ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol (cafodd hyn ei hyrwyddo gan Gymorth Cynllunio Cymru fel arfer gorau o ran ymgysylltu â'r gymuned). Cafodd y gwaith hwn hefyd ei enwi gan y Grŵp Cynghori Annibynnol yn 2012 fel arfer gorau a hysbysodd argymhellion y Grŵp (paragraff 3.47 a pharagraff 4.149 o'i adroddiad).**

**Profiad modelau eraill o ddarparu gwasanaeth cynllunio mewn Parciau Cenedlaethol**

**Mae'r Parciau Cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig yn gweithredu'r un model cynllunio, lle mae'r APCau yn gyfrifol am y swyddogaethau blaen gynllunio a rheoli datblygu, gan gyflwyno fframwaith polisi cyson ar gyfer y Parc Cenedlaethol a rhyngwyneb gwneud penderfyniadau unigol ar gyfer y**

**cwsmeriaid. Mae'r model hwn wedi datblygu dros rai blynyddoedd, â'r newidiadau'n cael eu hymgorffori i adlewyrchu pa mor ganolog yw datblygu cynaliadwy ac anghenion newidiol y cyhoedd. Mae dau Barc Cenedlaethol a ddynodwyd yn ddiweddar (y Cairngorms a'r South Downs) yn gweithredu fersiwn ddiwygiedig o'r model hwn, â'r cyfrifoldeb am reoli datblygu yn cael ei rannu â'r awdurdodau lleol cyfansoddol. Yn sgil eu hieuenctid cymharol, ni fu gwerthusiad ffurfiol o'r modelau hyn. Yn nhystiolaeth anecdotaidd y Cairngorms, awgrymir bod y cymhlethdod ychwanegol wedi arwain at anfanteision sylweddol i gwsmeriaid ac mae'n fwy drud a biwrocrataidd i'w weithredu. Mae cymhlethdod ychwanegol a chostau cudd hefyd yn perthyn i fodel y South Downs ac, er ei fod wedi'i fabwysiadu i gyd-fynd ag amgylchiadau cynllunio unigryw Parc Cenedlaethol South Downs, nid yw ynddo'i hun yn gwbl drosglwyddadwy i'r Parciau Cenedlaethol eraill.**

**Casgliad**

**Er mwyn cyfiawnhau cymryd y swyddogaethau cynllunio gan yr APCau, byddai angen cyflwyno tystiolaeth argyhoeddiadol i ddangos y byddai hyn yn cyflawni:**

**(a) gwell gwerth am arian**
**(b) gwasanaeth mwy integredig, cyson, hygyrch ac effeithlon i gwsmeriaid**

**Nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno i ddangos y byddai hynny'n digwydd. Dylai penderfyniad Llywodraeth Cymru ar y cyfrifoldeb am gynllunio mewn Parciau Cenedlaethol fod yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd, sef bod yr APCau yn awdurdodau cynllunio sy'n perfformio'n dda o ran paratoi cynlluniau a rheoli datblygu ac y byddai eu ffocws ar bwrpasau'r Parciau Cenedlaethol yn dioddef yn sylweddol petaent yn colli eu cyfrifoldebau cynllunio. Mae gan APCau hanes blaenorol da o gynnal gwasanaeth cynllunio ymatebol, ac mae arolygon defnyddwyr yn dangos lefelau uchel o foddhad. Mae APCau yn perfformio'n dda, ac fe gydnabuwyd hynny gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Chyflawni Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn amlwg nid yw'r system gynllunio mewn Parciau Cenedlaethol wedi torri, felly pam ei drwsio?**

**Mae manteision cael APC fel awdurdodau cynllunio lleol wedi'u hamlinellu uchod. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynglŷn â gwarchod nodweddion arbennig y Parciau Cenedlaethol, sef yr hyn y mae'n ymrwymo iddo yn y papur ymgynghori, yna dylai barhau i roi cyfrifoldeb i'r APCau am gynllunio yn eu hardaloedd.**

| C25 | A ydych yn cytuno mai dim ond mewn rhai ardaloedd penodol y dylid paratoi cynlluniau datblygu strategol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Bydd angen i'r Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) gael eu trin yn ofalus er mwyn**

**sicrhau nad yw'r CDLlau presennol a'r rhai sydd ar y gweill angen newidiadau radical, gan arwain at oedi a chymhlethdod yn y system.**
**Mae rôl i gynlluniau datblygu strategol ledled Cymru. Gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, os yw'n cyflawni rôl debyg i Gynllun Gofodol Cymru, helpu i ddiffinio'r meysydd hyn. Byddai ymdrin â materion megis rhagamcanion tai, cynllunio gwastraff, cynllunio mwynau ayb. ar lefel strategol mwy rhanbarthol yn fuddiol, ac yn cyseinio mewn ffordd ddefnyddiol wrth gydnabod rôl y Parciau Cenedlaethol o fewn ardal ddaearyddol ehangach. Ymddengys fod rhywfaint o symudiad tuag at gael mwy o fesurau diogelwch yn eu lle i gyflawni canlyniadau cywir i'r dynodiadau cenedlaethol yng nghynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol; er enghraifft, mae ffurfio'r Panel yn 5.31 yn cyfeirio at gynnwys amrywiol bartneriaid yn ogystal â chynrychiolwyr etholedig . Ymddengys nad yw rôl a chyfansoddiad Byrddau Cynllunio ar y Cyd, fel a gynigir ar hyn o bryd, yn darparu diogelwch o'r fath.**

**Bydd diffinio ardal y cynllun datblygu strategol ar hyd coridor yr A55 yn anodd gan fod y ffordd yn croesi drwy ardaloedd pum awdurdod. Ardal fwy rhesymegol fyddai coridor Sir y Fflint/ Wrecsam ar hyd y ffin. Os yw'r ACLlau yn cael eu hymestyn, bydd llai o angen am CDSau ac mae ACLlau yn annhebygol o gymryd rhan mewn cynllun o'r fath os mai dim ond ardal gymharol fach o'u hawdurdod sy'n cael ei effeithio. Dylai'r penderfyniad ar yr union ddaearyddiaeth gael ei wneud (neu o leiaf ei ddylanwadu'n gryf) yn lleol, h.y. gan ACLlau felly, nid gan Lywodraeth Cymru. Lle mae anghytundeb, gallai Llywodraeth Cymru fod yn gyflafareddwr.**

| C26 | A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu cwmpas Cynlluniau Datblygu Strategol i'r materion allweddol a nodir ym mharagraff 5.29? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:
**Dylai'r cynlluniau datblygiadau strategol bob amser roi digon o hyblygrwydd iddynt eu hunain ehangu'r materion allweddol y mae angen ymdrin â nhw os oes angen ac os ydynt yn berthnasol ar y pryd. Fodd bynnag, man cychwyn yw'r rhestr.**

| C27 | A ydych yn cytuno y dylai partneriaeth rhwng awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol oruchwylio'r broses o baratoi Cynlluniau | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

| | Datblygu Strategol? | | |
|---|---|---|---|

Rhowch eich sylwadau:
**Gweler yr ymateb i C25 uchod.**

| C28 | A ydych yn cytuno y dylid paratoi Cynllun Datblygu Lleol llai manwl sy'n canolbwyntio ar faterion lleol eu harwyddocâd mewn ardaloedd lle ceir Cynlluniau Datblygu Strategol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:
**Er nad oes anghydfod ynghylch y syniad o'r cynnig, mae 'cyffyrddiad ysgafn' yn awgrymu ystyriaeth gyfyngedig. Byddai angen i'r CDLl roi ystyriaeth i'r materion hynny nad ymdrinnir â nhw yn y CDS a pheidio â dyblygu'r materion hynny sydd yn cael eu trin. Mae'n rhesymol awgrymu nad yw Cynlluniau Datblygu Lleol yn yr ardaloedd a gwmpesir gan CDSau yn ysgafn iawn o gwbl, a gallant ymdrin â materion cymhleth. Ar ben hynny, byddai ACLl yn dymuno cadw rheolaeth lawn ar y CDLl os mai dim ond darn bach o'r awdurdod sydd mewn ardal CDS.**

**Gwella'r Ddarpariaeth Leol**

| C29 | A ydych yn cytuno â'r elfennau hanfodol a nodwyd ar gyfer gwasanaeth cynllunio da yn Atodiad A? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:
**Nid yw canolbwyntio effeithlonrwydd ar gyflymder yn unig yn arwydd o effeithlonrwydd, o reidrwydd. Er enghraifft, byddai'n fwy effeithlon treulio 10 wythnos ar gais i gyflawni gwelliant sy'n galluogi caniatâd, na gwrthod cais o fewn 8 wythnos ac yna bod angen ei ailgyflwyno. Byddai'r amser ar gyfartaledd ar gyfer penderfyniad yn ddull gwell a fyddai'n caniatáu ar gyfer hyblygrwydd yn y system.**

**Dylai dangosyddion ansawdd hefyd gynnwys ansawdd y datblygiad a ganiateir - mae'n hanfodol bod y system gynllunio yn cyflenwi datblygiad o ansawdd dda ar gyfer y rhai a fydd yn ei ddefnyddio ac yn cael eu heffeithio ganddo, a dylid treulio swm cymesur o amser i gyflawni'r nod hwnnw.**

**Bydd cael Mesur Cynllunio newydd (sy'n gofyn am lawer o newidiadau) a symud tuag at wasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol yn cymryd peth amser i Awdurdodau Cynllunio Lleol ei weithredu. Byddai gosod targed o 80% ar y dechrau yn annhebygol o fod yn gyraeddadwy gan rai ACLl yn y tymor byr ac nid ystyrir eu bod yn dargedau 'SMART'. Ystyrir y byddai'n fwy realistig pennu graddiad o% hyd at uchafswm o 80%, i gael eu cyflawni dros gyfnod o 3 blynedd. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd newid diwylliannau yn cymryd amser. Yn unol â hynny, nid yw gosod targedau afrealistig o'r cychwyn cyntaf yn ddefnyddiol.**

**O ran dangosyddion 'Ansawdd', er enghraifft, 'A osgowyd costau mewn apêl?' Nid yw hwn yn ddangosydd defnyddiol na mesuradwy o ansawdd. Gallai dangosydd arall fod yn 'Y canran o gostau a ddyfarnwyd yn erbyn yr Awdurdod Cynllunio Lleol o gyfanswm y costau y gofynnwyd amdanynt gan yr apelydd'.**

| C30 | A ydych yn cytuno y dylai pob awdurdod cynllunio lleol lunio a chyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol yn unol â safonau y cytunwyd arnynt? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:

**Mae cefnogaeth ar y sail y byddai rhai cwsmeriaid yn croesawu hyn, a dim ond unwaith y flwyddyn y byddai'n cael ei gynhyrchu.**

**Fodd bynnag, mae pryder y gallai hyn arwain at rywfaint o ddyblygu gan y gall y wybodaeth gael ei chasglu a'i dangos ar wefan Llywodraeth Cymru. Nid oes angen adroddiad perfformiad blynyddol pellach ar gyfer y cwsmer, mae'n cymryd amser i gasglu data, ac nid yw'n darparu dull cyson. Dylai'r elfennau fel**

**y nodir yn Atodiad A fod yn ddigonol, yn hytrach na chael set arall o ddata, targedau a gwella gwasanaethau i ymdrin â nhw.**

| C31 | Os ystyrir bod awdurdod cynllunio lleol yn perfformio'n wael, a ydych yn cytuno y dylai fod opsiwn i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol i Weinidogion Cymru? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:
**Ystyrir y byddai'n fwy priodol i Lywodraeth Cymru ddarparu targedau ar gyfer gwella yn hytrach na chymryd drosodd y gwasanaeth cynllunio yn uniongyrchol. Mae'r rhan fwyaf o ACLlau yn delio â nifer cymharol fach o geisiadau mawr, ac o'r herwydd, nid yw hyn o reidrwydd yn targedu'r ardaloedd problem. Nid yw'n glir os oes tystiolaeth fod yr ACLlau sy'n "perfformio'n wael" y cyfeirir atynt yn seiliedig ar geisiadau mawr yn unig.**

| C32 | A ydych yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:
**Gweler yr ymateb i C25 a C27 uchod.**

**Yn arwynebol gall hyn ymddangos fel ffordd synhwyrol ymlaen, ond gall materion godi yn enwedig lle mae un o'r awdurdodau cynllunio yn Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae APCAP wedi gwneud y ddau fath o Gynllun a byddai'n rhoi sylwadau fel a ganlyn:**

- **Bu arbedion ariannol o ganlyniad i APCAP yn datblygu ei Gynllun ei hun.**
- **Cymerodd y broses lawer llai o amser nag wrth wneud Cynllun ar y Cyd.**
- **Mae'r cynnyrch cynllun sengl yn cyflwyno adlewyrchiad cliriach o bolisi'r Parc Cenedlaethol i'r darllenydd. Roedd y cynnyrch cynllun ar y cyd yn dioddef o ran ansawdd. Gall polisïau yn aml gael eu strwythuro'n wael a bod yn aneglur i'r defnyddiwr wrth geisio nodi gwahanol ddulliau y tu mewn a'r tu allan i'r Parc Cenedlaethol.**
- **Mae angen creu cysylltiadau gwell â'r Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Roedd gwneud cynllun yr Awdurdod ei hun yn golygu bod cyfleoedd i symud ymlaen ar y cyd i roi prawf ar weledigaeth ar gyfer y Parc, ei nodau a'i amcanion drwy ymgynghori cyhoeddus. Mae canllawiau cenedlaethol yn gofyn i ni ddatblygu synergeddau gwell gyda pharatoad Cynllun Rheoli.**
- **Nid yw'r fframwaith deddfwriaethol yn nodi canllawiau clir i ddelio ag anghytundebau. Unwaith y bydd wedi ei gytuno yn ffurfiol i baratoi Cynllun ar y**

**Cyd ni ellir gwyntyllu unrhyw anghytundebau polisi mewn Ymchwiliad oni bai bod y partïon yn tynnu'n ôl yn ffurfiol o baratoi Cynllun ar y Cyd.**
**• Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gofyn am gytundeb ffurfiol rhwng y ddau Awdurdod i baratoi cynllun ar y cyd cyn dechrau gweithio ar baratoi'r Cynllun. Byddai hyn yn golygu ymrwymo cyn i gytundeb ar strategaeth ar y cyd gael ei warantu. Fodd bynnag, bydd datblygiad y strategaeth honno'n cael ei dylanwadu'n drwm drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, cymunedau â diddordeb ayb.**

**Petai ymdriniaeth Cymru gyfan o Gynlluniau Datblygu Strategol ar gael fel opsiwn, yna byddai hyn yn ymddangos yn ffordd well ymlaen ochr yn ochr â gweithio mewn partneriaeth. O brofiad yr APCAPau, roedd y broses y CDLl wedi ei hanelu'n well at weithio mewn partneriaeth ac adeiladu consensws o'r dechrau gydag awdurdodau cyfagos. Roedd cydgysylltiad swyddogion, grwpiau rhanddeiliaid yn parhau mewn ffordd debyg gan rannu canfyddiadau ymchwil ac ymgynghori ar bolisi drafftio ayb. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad 'Cyflwyno Gwasanaeth Cynllunio mewn Tirweddau Statudol Dynodedig yng Nghymru' y cyfeirir ato ym mharagraff 5.18 o'r Ddogfen Ymgynghori Mesur Cynllunio.**

**Mae gan gynllun ar y cyd y potensial i gynnwys partner dominyddol, a byddai'r cynllun o ganlyniad yn llai cymwys i'r Awdurdod a oedd yn llai dominyddol yn y broses. Er mwyn cael cytundeb, byddai'n rhaid cyffredinoli a gwanhau'r cynllun, a fyddai'n ei gwneud yn anodd gweithredu'r cynllun.**

| | | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| C33 | A ydych yn cytuno y dylai Cynllun Datblygu Lleol gynllunio ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd ymlaen llaw o leiaf, y dylent gynnwys dyddiad dod i ben penodol ac na fyddant yn gynlluniau datblygu gweithredol ar ôl y dyddiad hwnnw? | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:

**Ymddengys nad oes fawr o rinwedd i'r cynnig hwn, a bwrw bod y CDLl yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd. Os nad yw, byddai pwerau ar gyfer ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru i gyfarwyddo amserlen ar gyfer adolygu yn ymddangos yn fwy priodol.**

**Bydd yn anodd amseru diwedd yr hen gynllun gyda dechrau'r cynllun newydd a byddai gorgyffwrdd ychydig o amser yn fuddiol yn enwedig os yw polisïau yn berthnasol a dyraniadau tir yn parhau i fod heb eu datblygu yn yr hen gynllun.**

| | | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| C34 | A ydych yn cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda chynghorau tref a chymuned i lunio cynlluniau lleoedd y gellir eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio ategol? | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

**Nodwyd Datganiadau Dylunio Cynlluniau Pentref / Cynlluniau Plwyf / Pentref yn y Papur Gwyn Gwledig 2000. Nododd y Papur y dylai Cynlluniau Pentref nodi gweledigaeth o'r hyn sy'n bwysig a sut orau y gall datblygiadau newydd gael eu gosod i mewn, y safonau dylunio ac ansawdd y dylai eu cyfarfod, sut i gadw nodweddion lleol gwerthfawr a mapio'r cyfleusterau y mae'r gymuned angen eu diogelu ar gyfer y dyfodol. Dylent nodi cyfleusterau a gwasanaethau allweddol, nodi'r problemau y mae angen ymdrin â nhw a dangos sut y gellir cadw cymeriad a nodweddion neilltuol.**

**Gall materion defnydd tir yr ymdrinnir â nhw yn y Cynllun Pentref gael eu mabwysiadu gan yr awdurdod fel Canllawiau Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu**

**Mae cynlluniau pentref yn gynlluniau lleol, seiliedig ar weithredu, sy'n ymdrin ag ystod o broblemau a chyfleoedd sy'n effeithio ar gymunedau gwledig,**

**Mae cefnogaeth i'r system Cynllun pentref fel cyfrwng delfrydol ar gyfer hyrwyddo lefel o ymgysylltu a chynhwysedd cymunedol wrth baratoi cynllun.**

**Gan sylweddoli nad yw un polisi yn addas i bawb - bwriedir i'r Cynllun Datblygu Lleol osod allan egwyddorion cyffredinol datblygiad derbyniol, gyda'r Cynllun Pentref yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio manylion. Ystyrir bod hyn yn hanfodol os ydym i barhau i sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu diwallu mewn penderfyniadau cynllunio.**

**Nodwyd y meysydd canlynol lle rydym am weithio gyda chymunedau**

- **Angen lleol am dai, gan gynnwys asesiad o fforddiadwyedd tai**
- **Datganiad Dyluniad Pentref**
- **Nodweddion tirwedd - yn cynnwys asesiad o nodweddion arbennig**
- **Ôl troed Ecolegol a Charbon**
- **Briffiau datblygu ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd**
- **Anghenion Seilwaith Cymunedol**

**Fodd bynnag dylai Paratoi Cynllun Pentref roi'r cyfle i unrhyw un drafod materion sy'n effeithio ar y gymuned, ac i ddwyn ynghyd gynllun gweithredu i'r gymuned sy'n ymdrin â'r materion hynny. Bydd hyblygrwydd y system cynllun pentref yn galluogi ymdrin â materion allweddol eraill i'r gymuned, fel sy'n ofynnol gan y gymuned. Efallai na fydd y rhain yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol.**

**Mae hwn yn gyfle i weithredu strategaethau ar lefel leol, gan weithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol.**

**Gwell defnydd o'r polisïau yn y CDLl**
- **Gwell dealltwriaeth a defnydd o faterion Cymeriad Tirwedd ar gyfer ardal**
- **Gwell dealltwriaeth a defnydd o faterion Dylunio lleol ar gyfer ardal**
- **Briffiau Datblygu ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd**

**Fodd bynnag, mae pryder y gall hyn godi disgwyliadau cymunedau o ran faint o ddylanwad y gallant ei gael ar bolisïau cynllunio ardal. Maent yn debygol o fod yn drwm ar adnoddau, a gellir bod disgwyliad y cânt eu gwireddu. Mae diffyg gwybodaeth gynllunio, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fewn Cynghorau Cymuned y byddai'n rhaid ymdrin â nhw er mwyn i hyn weithio'n briodol. Ceir potensial i'r cynlluniau hyn fod yn fforwm i'r dull 'NIMBY' o gynllunio. Byddai angen i hyn fod yn rhan annatod o'r newid diwylliant y mae'r Mesur Cynllunio yn ceisio ei wneud, a dylid pwysleisio nad mater i'r gweithwyr cynllunio proffesiynol yn unig i'w gofleidio yw newid diwylliant.**

| C35 | Os yw cynnig datblygu yn cyd-fynd â dyraniad mewn cynllun datblygu a fabwysiadwyd, a ydych yn cytuno y dylid cyflwyno proses ceisiadau cynllunio newydd, er mwyn sicrhau mai dim ond manylion megis dyluniad a chynllun y datblygiad a gaiff eu hystyried? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

**Gallai fod yn ddryslyd i aelodau o'r cyhoedd a'u difreinio ymhellach oddi wrth y broses gynllunio.**

**Byddai'n fuddiol cael hyfforddiant priodol a phroses apêl glir, er mwyn sicrhau y dylai’r nifer y safleoedd a neilltuwyd a wrthodir ar egwyddor ostwng. Hefyd efallai y bydd amser lle nad oes angen ystyried yr egwyddor eto, er enghraifft, os nad yw materion priffyrdd neu seilwaith wedi newid ers dyraniad y safle.**

**Ffefrir Dewis 2 yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn galluogi i’r holl faterion gael eu hystyried yn llawn heb edrych eto ar yr egwyddor wreiddiol, a galluogi ymgynghoriad llawn gyda thrydydd parti sy'n annhebygol (er gwaethaf y newid diwylliant arfaethedig) o fod wedi deall manylion dyraniad y cynllun datblygu. Yn ogystal, byddai rôl ymgyngoreion statudol yn hanfodol yn Opsiwn 1 gydag ymrwymiad llawn i ddatblygiad pryd bynnag y mae'n digwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Gallai newidiadau i fapiau llifogydd, gofynion priffyrdd, ayb. gael effeithiau sylweddol ar dderbynioldeb dyraniad y cynllun. Bydd Opsiwn 2 yn caniatáu i unrhyw newidiadau gael eu hystyried yn llawn. Fodd bynnag, mae pryder o ran y goblygiadau i ddemocratiaeth leol.**

**Os yw Opsiwn 1 yn cael ei fabwysiadu, mae'n hanfodol bod hyn yn digwydd yn raddol (gan na fyddai dyraniadau presennol o reidrwydd wedi cael y craffu y byddai'r opsiwn hwn ei angen) a bod y dyraniad gyda digon o fanylion ynddo i drydydd parti ddeall y goblygiadau i’r dyfodol a gwneud sylw manwl ar y cam CDLl.**

| C36 | A ydych yn cefnogi'r cynnig i ganiatáu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio lleol i beidio â chofrestru cais cynllunio? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Mae'n rhesymol disgwyl i ACLl ei gwneud yn glir bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar y cam dilysu yn wirioneddol angenrheidiol ac yn berthnasol i'r cais mewn achosion lle yr ydym ni/nhw yn gwrthod dilysu. Mae'r apêl yn erbyn llwybr methiant i benderfynu yn cael ei ystyried yn rhy araf i faterion dilysu a byddai proses gyflymach a weinyddir gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn well. Fodd bynnag, os yw hyn yn cael ei gyflwyno, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol allu mabwysiadu eu gofynion dilysu eu hunain.**

**Mae gan APCAP enghreifftiau lle maent wedi dilysu ceisiadau gyda gwybodaeth gyfyngedig, wedi cynghori asiantau bod y wybodaeth yn annigonol i gymeradwyo cais, ac wedi defnyddio 'diffyg gwybodaeth' fel rheswm dros wrthod. Mae hyn yn cael ei gefnogi’n glir gan wybodaeth oddi wrth ymgyngoreion statudol hefyd. Yna mae gan yr asiant yr hawl i apelio yn erbyn y gwrthodiad.**

| C37 | A ddylid dileu'r gofyniad am ddatganiadau dylunio a mynediad gorfodo? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Roedd y Datganiad Dylunio a Mynediad wedi dod yn ddogfen llawer rhy gymhleth gyda thystiolaeth o asiantau yn 'torri a gludo' o un datblygiad i un arall heb fawr o ystyriaeth safle-benodol. Mae cynllunwyr wedi eu hyfforddi ac mae ganddynt ddigon o afael ar y materion hyn i ddylanwadu ar y materion hyn ar y cam cyn-ymgeisio.**

**Er gwaethaf hyn, gall y Datganiad Dylunio a Mynediad fod yn ddefnyddiol i'r ymgeisydd hefyd i esbonio cynnig. Beth ddylai ddod yn ei le? Byddai Datganiad Dylunio a Mynediad ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad yn unig yn opsiwn.**

| C38 | A ddylid dileu'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol mewn papur newydd lleol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Ystyrir bod costau hysbysebu wedi mynd ymhell tu draw i’r manteision y mae’r math hwn o hysbysebu yn eu cyflawni. Fodd bynnag, byddai peth gwerth mewn gorfodi papurau newydd lleol i gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â sut i gael gafael ar wybodaeth am geisiadau cynllunio, gan gynnwys gwefannau ACLl, oriau swyddfa, rhestrau wythnosol o geisiadau a dderbyniwyd ac a wrthodwyd, argaeledd papurau pwyllgor, cysylltiadau cyngor cymuned ayb.**

| C39 | A ddylai fod unrhyw amrywiad lleol o fewn cynllun dirprwyo cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Mae dirprwyo yn arwydd o barch ac ymddiriedaeth rhwng gwaith swyddogion proffesiynol ac aelodau. Byddai gorfodi cynllun dirprwyo yn mynd yn groes i hyn. Hefyd bydd gwahaniaethau lleol gan gynnwys y mathau a graddfeydd y ceisiadau sy'n dod gerbron. Dylai Aelodau gael y cyfle i ddiwygio’r cynllun dirprwyo yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid. Awgrymir bod anelu at 75% - 90% dirprwyedig o bosibl yn gydbwysedd da ar gyfer aelodau, y cyhoedd, partïon â diddordeb a'r ymgeisydd.**

**Ystyrir y dylai'r APCau barhau i gael cyfran o aelodau heb eu hethol ar eu pwyllgorau, sy'n adlewyrchu rôl Genedlaethol ehangach y Parciau Cenedlaethol wrth ddiogelu eu nodweddion arbennig.**

**Mae cynllun dirprwyo cenedlaethol hefyd yn awgrymu cysondeb o fath a natur ceisiadau ar draws Cymru. Bydd gwahaniaethau lleol yn golygu y gall materion lleol fod â phwysigrwydd uwch mewn rhai ardaloedd nag eraill ac felly bydd angen mwy o flaenoriaeth gyda mewnbwn pwyllgor ar faterion mewn rhai ardaloedd yn hytrach nag eraill. Dylai'r cynllun fod â digon o hyblygrwydd i gymryd amrywiadau lleol hyn i ystyriaeth.**

| C40 | A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu mân newid perthnasol i "newid y mae ei faint a'u natur yn arwain at ddatblygiad nad yw'n sylweddol wahanol i'r datblygiad a gymeradwywyd"? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ |

Rhowch eich sylwadau:

**Nid graddfa a natur fydd o reidrwydd yn newid perthnasol bach, ond yr effaith sylweddol y gall y newid hwn ei gael ar gymydog er enghraifft.**

**Mae hyn yn agored i'w ddehongli a bydd yn cyflwyno dryswch. Bydd dehongliad pob person o lefel perthnasedd yn wahanol. Er enghraifft, gellid ystyried y gallai'r cymydog agosaf ei weld yn berthnasol gan mai'r cymydog hwnnw fyddai'n gorfod byw gyda'r datblygiad, ond efallai na fyddai'r cymydog dau ddrws i ffwrdd yn teimlo'r un peth. Mae'n hanfodol bod gwelliannau perthnasol yn cael eu diffinio mewn rhyw ffordd, neu fod angen ceisio bob un o'r rhain drwy Adran 73, efallai gyda llwybr penderfyniad symlach a chyflymach.**

| C41 | A ydych yn cytuno bod y cynigion yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i warchod tir a ddefnyddir fel Meysydd Tref a Phentref a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Dim sylwadau**

| C42 | A ydych yn cytuno y bydd y cynigion yn lleihau'r oedi o fewn y system gorfodi cynllunio? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Nid yn unig y byddai'r cynigion o dan 6.143 yn lleihau'r oedi yn y system gorfodi cynllunio, ond byddent hefyd yn cynrychioli fframwaith mwy ffafriol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol orfodi yn erbyn datblygiad anawdurdodedig. Rhoddir croeso arbennig i ddarparu ACLlau gyda phwerau i'w gwneud yn ofynnol cyflwyno ceisiadau ôl-weithredol (lle y gall datblygiad gael ei reoli gan amodau) yn ogystal â'r gallu i wrthod penderfynu ar geisiadau sy'n destun i hysbysiad gorfodi.**

| C43 | A ydych yn cytuno â chyflwyno hysbysiadau atal dros dro fel rhan o'r system gorfodi cynllunio yng Nghymru? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:
**Fel uchod, mae hyn yn amlwg yn fesur sydd ei angen i gefnogi'r broses orfodi.**

Nid wyf am i fy enw / nghyfeiriad gael ei gyhoeddi gyda fy ymateb (ticiwch y blwch) ☐

## Sut i ymateb

**Cyflwynwch eich sylwadau mewn unrhyw un o'r ffurfiau a ganlyn:**

| **E-bost** |
|---|
| Llenwch y ffurflen ymateb ymgynghori a'i hanfon at:<br>planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk<br><br>(Cynhwyswch 'Cynllunio Cadarnhaol – WG20088' yn y llinell pwnc os gwelwch yn dda). |
| **Post** |
| Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at:<br>**Tim y Bil Cynllunio**<br>**Is-adran Gynllunio**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>**Parc Cathays**<br>**Caerdydd**<br>**CF10 3NQ** |
| **Gwybodaeth ychwanegol** |
| Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn,<br>e-bostiwch: planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk neu<br><br>Ffoniwch: 0300 0603300 neu 08450103300 |

yn rhoi cartref i fyd natur
giving nature a home

RSPB Cymru

Lord Dafydd Elis-Thomas AM
Chair of the Environment & Sustainability Committee
National Assembly for Wales
Tŷ Hywel
Cardiff
CF99 1NA

27 February 2014

Dear Dafydd,

**Sustainable Land Management Inquiry – Additional Evidence to Committee regarding the Environment White Paper**

RSPB Cymru was pleased to be invited to give evidence to the Committee as part of the Sustainable Land Management inquiry. At the evidence session on 15th January I undertook to provide the Committee with further information regarding:

i) the definitions within the Environment White Paper, and
ii) our concern that the current proposals are not strong enough to effect the change needed, particularly in terms of delivery by bodies other than NRW.

i) The definitions will be critical to framing the scope of the Bill, and RSPB Cymru is continuing to work with partner organisations to develop our thinking on them. Key changes we believe are required are as follows:

- There should be explicit reference to biodiversity, including species and habitats (in addition to 'biomass and biological resources' currently under the *Natural resources* heading) and reference to the intrinsic value of nature. This would make clear in the Bill that biodiversity is considered important in its own right, rather than only in terms of its exploitation, as stated in paragraph 2.13 of the White Paper. It would also make it clear that the Bill is intended to support delivery of biodiversity objectives.

- The definition of *integrated natural resource management* should refer to 'conservation, enhancement, restoration and use'. This would better reflect the conservation imperative that is fundamental to the ecosystem approach, as defined by the Convention on Biological Diversity (CBD), and would recognise that our nature is depleted as a starting point. Conservation and restoration are fundamental to secure the healthy, resilient ecosystems we depend on for a range of benefits.

**Pencadlys Cymru**
Tŷ Sutherland
Pont y Castell
Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AB

**Wales Headquarters**
Sutherland House
Castlebridge
Cowbridge Road East
Cardiff
CF11 9AB

**Ffôn/tel** 029 2035 3000
**Ffacs/fax** 029 2035 3017

rspb.org.uk

BirdLife INTERNATIONAL

Mae'r RSPB yn aelod o BirdLife International, partneriaeth o gyrff cadwraeth sy'n gweithio i sicrhau cartref i fyd natur o amgylch y byd.
The RSPB is a member of BirdLife International, a partnership of conservation organisations working to give nature a home around the world.



Noddwr/Patron: Ei Mawrhydi y Frenhines/Her Majesty the Queen Cadeirydd y Cyngor/Chairman of Council: Professor Steve Ormerod, FIEEM
Cadeirydd Pwyllgor Cymru/Chairman, Committee for Wales: Dr Havard Prosser Cyfarwyddwr, RSPB Cymru/Director, RSPB Cymru: Katie-jo Luxton
Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (yr RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, yr Alban rhif SC037654
The Royal Society for the Protection of Birds (RSPB) is a registered charity: England and Wales no. 207076, Scotland no. SC037654

- The word 'optimise' is unhelpful in the definition of *integrated natural resource management*, because it suggests the environmental need could be curtailed in order to ensure socio-economic benefits, rather than being delivered in order to ensure sustainable economic benefits.

- It must be clear that the aim of the Environment Bill is to establish improved systems and processes to deliver, specifically, the resilient environment that will provide the basis for sustainable development. If this principle is not established the sustainability of the environment (and consequently its ability to support sustainable development) risks **not** being the clear focus of effort around integrated natural resource management. The current definition of *sustainable management* is not sufficiently explicit about the environmental focus of the Bill.

- Terminology more in keeping with the Brundtland definition of sustainable development should be used, referring to the needs of present and future generations rather than wellbeing or aspirations.

ii) In addition, during our evidence session we briefly touched upon our view that the White Paper does not set out mechanisms for ensuring the delivery of priorities identified through the new natural resource management process. How the new approach influences and integrates with processes like land use planning, marine management, and deployment of rural payments, as well as project specific decisions, will be fundamental to its success or failure. The White Paper proposes a duty on public bodies to co-operate with NRW around natural resource management, which is welcome. However, there is no proposed requirement for other bodies to take account of the outputs of the natural resource management process, or to deliver the actions identified. We believe that such an outcome-focused duty is needed to ensure the new process will influence or effect action by bodies other than NRW.

I hope this further information is helpful.

Yours sincerely,

Annie Smith

**Annie Smith**
Sustainable Development Manager, RSPB Cymru

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Llywodraeth Cymru
Pumed llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

3 Chwefror 2014

Annwyl Weinidog

1. Ysgrifennaf mewn cysylltiad â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru, *Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy: Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd*, a gyhoeddwyd y llynedd.

2. Fel y gwyddoch, rydym wedi cymryd diddordeb mawr yn y modd y bu Llywodraeth Cymru yn drafftio'i deddfwriaeth, a chyda hyn mewn golwg yr ystyriwyd y Papur Gwyn yn ein cyfarfod ar 20 Ionawr.

3. Nodwn fod yr ymgynghoriad yn cynnig dau bŵer posibl i Weinidogion Cymru ddiwygio Deddfau Senedd y DU a Deddfau'r Cynulliad drwy wneud is-ddeddfwriaeth:

(i) cynnig NRM11, opsiwn 1, a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau penodol, drwy gyfrwng gweithdrefn uwchgadarnhaol, i ddeddfwriaeth bresennol mewn amgylchiadau penodol ond i gyfyngu'r newidiadau hyn i ddeddfwriaeth sylfaenol a restrir yn Atodlen 2 i *Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013*.

(ii) cynnig SM4, a fyddai'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Deddf Dŵr, drwy Orchymyn, mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys os ydynt wedi'u bodloni y bydd hynny'n ei gwneud yn haws cydgrynhoi un neu ragor o'r Deddfau Dŵr;

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8008
E-bost / Email: gareth.williams@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

4. Hefyd, mae paragraff 3.44 yn awgrymu y gellid cyfuno'r ddau gynnig ac ymestyn y cyfle i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth amgylcheddol (cynnig NRM11, opsiwn 2).

5. Nodwn hefyd, gyda rhywfaint o bryder, fod y Papur yn nodi "Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd pa bryd a sut y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r pwerau galluogi sy'n cael eu gosod allan yn NRM11"(paragraff 3.50) a'i fod yn gwneud datganiad tebyg mewn cysylltiad â'r pŵer a nodir yn SM4 (paragraff 5.48).

6. Yn y ddogfen ymgynghori, mae cyfeiriad at gynnig NRM11 a SM4 yn cael eu defnyddio fel ymarferiad cyn cydgrynhoi, er, nid yw'n amlwg beth fyddai cynnwys na diben ymarferiad o'r fath.

7. Fel y gwyddoch defnyddir y term pŵer "Harri'r VIII" yn gyffredin i gyfeirio at bwerau fel NRM11 a SM4 a fyddai'n galluogi is-ddeddfwriaeth i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

8. Er nad yw priodoldeb pwerau Harri'r VIII wedi codi fel mater o bwys ym Miliau Llywodraeth Cymru yn y Cynulliad hyd yma, mae'r mater wedi'i drafod, fodd bynnag, gan Senedd y DU yn ystod hynt nifer o filiau drwy'r Senedd.

9. Er enghraiff, trafodwyd y mater gan y Pwyllgor Cyfansoddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi, yn ei adroddiad ar y Bil Cyrff Cyhoeddus (a roddodd bwerau i Weinidogion Cymru wneud y Gorchmynion a sefydlodd Gyfoeth Naturiol Cymru ac a roddodd ei swyddogaethau iddo). Dywedodd y Pwyllgor hwnnw fod pwerau Harri'r VIII yn parhau yn:

> "constitutional oddity. That is: they are pushing at the boundaries of the constitutional principle that only Parliament may amend or repeal primary legislation…….. Where the further use of such powers is proposed in a Bill, we have argued that the powers must be clearly limited, exercisable only for specific purposes, and subject to adequate parliamentary oversight."

10. Mewn cysylltiad â'r Gorchmynion a gynigiwyd gan y Bil Cyrff Cyhoeddus, nododd y Pwyllgor Cyfansoddiad:

> "The Government has not made out the case as to why the vast range and number of statutory bodies affected by this Bill should be

abolished, merged or modified by force only of ministerial order, rather than by ordinary legislative amendment and debate in Parliament. As we have said, and as is axiomatic, the ordinary constitutional position in the United Kingdom is that primary legislation is amended or repealed only by Parliament. Further, it is a fundamental principle of the constitution that parliamentary scrutiny of legislation is allowed to be effective. While we acknowledge that exceptions are permitted … we have also sought to ensure that such exceptions are used only where the need for them is clearly set out and justified. As we have said, the use of Henry VIII powers, while accepted in certain, limited circumstances, remains a departure from constitutional principle. Departures from constitutional principle should be contemplated only where a full and clear explanation and justification is provided."

11. Rydym hefyd wedi ystyried y mater ehangach o gydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn y darperir ar ei gyfer mewn rheoliadau, yn ein hadroddiad yn y Trydydd Cynulliad, *Ymchwiliad i Ddrafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: Gwersi o'r tair blynedd gyntaf,* ac yn fwy diweddar mewn nifer o adroddiadau ar Filiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Pedwerydd Cynulliad. Yn ein hadroddiadau, rydym wedi cynnig nifer o argymhellion am yr angen i osgoi deddfwriaeth fframwaith.

12. Oherwydd nad oes Bil drafft ar hyn o bryd, byddai'n anodd rhoi unrhyw sylwadau o ran pa mor briodol yw'r pwerau a gynigiwch. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw Gweinidogion Cymru yn gwybod ar hyn o bryd sut a phryd y gallant fod yn defnyddio rhai o'r pwerau yr ymgynghorir yn eu cylch.

13. Felly, rydym yn ysgrifennu er mwyn rhoi rhybudd ymlaen llaw o'n bwriad i ddefnyddio prawf tebyg i'r prawf a ddefnyddir yn Senedd y DU i farnu pa mor briodol yw pwerau Harri'r VIII yn y Bil Amgylchedd, h.y. bod yn rhaid iddynt fod yn gyfyngedig, yn arferadwy at ddibenion penodol yn unig, ac yn destun goruchwyliaeth ddigonol gan y Cynulliad. Ar y sail honno, rydym o'r farn y byddai'r cynnig y cyfeiriwn ato ym mharagraff 4 (NRM11, opsiwn 2) yn methu'r prawf ar sail ei allu i ddiwygio unrhyw ddeddfwriaeth amgylcheddol, tra byddai angen i'r cynigion y cyfeiriwn atynt ym mharagraff 3 (NRM11, opsiwn 1 a SM4) gael eu hystyried yn fanwl unwaith y byddai'r manylion yn wybyddus.

14. Fel yn achos Biliau eraill a gyflwynwyd yn y Pedwerydd Cynulliad, byddwn hefyd yn ystyried yn ofalus y cydbwysedd y mae'r Bil Amgylchedd yn

ei gyflawni rhwng beth sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a beth sydd wedi'i nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Fel y nodwyd uchod, mae'n annhebygol y byddwn yn gwneud sylwadau ffafriol am Fil sydd â strwythur fframwaith, oherwydd mae'n gostwng lefel y gwaith craffu ar gynigion deddfwriaethol gan y Cynulliad.

15. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Yn gywir

**David Melding AC**
**Cadeirydd**

**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/AD-/0150/14

David Melding AM
Chair of the Constitutional and
Legislative Affairs Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay

5 March 2014

Dear David,

**Environment Bill Proposals**

Thank you for your correspondence dated 3 February 2014 and interest in our White Paper consulting on proposals for an Environment Bill.

In relation to the points you raise we are in the process of analysing the consultation responses and I would highlight that proposals for inclusion in the draft Bill are not finalised - the consultation on the White Paper being a key part of the development of the Bill. The responses will inform further development of our proposals and the drafting of the Bill and I intend to issue a consultation summary report later this Spring.

There are two possible powers outlined in the White Paper for Welsh Ministers to amend Acts of Parliament and the Assembly by way of secondary legislation. NRM11 sets out a proposal for a power to effect changes to the primary legislative framework that governs the management of natural resources in certain circumstances. An additional proposal (SM4) would provide Welsh Ministers with the power to amend a Water Act, by Order, in certain circumstances, including if they are satisfied that it will make it easier to consolidate one or more Water Acts.

If taken forward, I would offer reassurance that the intention is for the powers to have limited and very specific scope to effect changes to the primary legislative framework that governs the management of natural resources. This would only apply in very specific circumstances and to specific legislation - that is where it can be demonstrated that the current law is contrary to the definition, purpose and objectives of the framework for integrated natural resource management and where all other means of addressing those issues have been actioned. Any such amendments would also have to ensure continued compliance with EU

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

obligations. A misconception was raised at the Environment and Sustainability Committee on 12 December that this is a general power that will enable the consolidation of Environmental legislation through secondary legislation – this is not the case and my officials will clarify the intention and limited scope of the power.

In considering the proposals, I am mindful of both the need to have a legal framework that is flexible enough to be more responsive to changing circumstances, but also that there is clarity and clear democratic accountability.

I am copying this response to Lord Elis-Thomas, Chair of the Environment and Sustainability Committee.

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon